

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

Chwefror 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

Chwefror 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Gareth Bennett AC
UKIP Cymru
Canol De Cymru



Andrew RT Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



John Griffiths AC
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Helen Mary Jones AC
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Joyce Watson AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



Joyce Watson AC
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd

Cynnwys

Casgliadau ac argymhelliad.....	5
Argymhelliad	10
Cyflwyniad	11
1. Bil Pysgodfeydd y DU a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.....	12
2. Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a ddefnyddiwyd.....	15
3. Amcanion pysgodfeydd	24
4. Datganiadau pysgodfeydd	32
5. Mynediad i bysgodfeydd Prydain	37
6. Cyfleoedd pysgota a rhannu cwota.....	43
7. Pwerau cymorth ariannol a chyllid yn y dyfodol.....	53
8. Mynediad i farchnadoedd	60
9. Cynlluniau codi tâl i atal gwaredu pysgod	64
Atodiad A: Tystiolaeth ysgrifenedig.....	66
Atodiad B: Tystiolaeth lafar	67

Casgliadau ac argymhelliad

Nod y darpariaethau allweddol ym Mil y DU, er enghraifft, yr amcanion pysgodfeydd a'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, yw sicrhau dull gweithredu cyffredin mewn perthynas â physgodfeydd ledled y DU ar ôl Brexit. Bydd y darpariaethau hyn yn berthnasol i bob un o weinyddiaethau'r DU yn union yr un fath. Felly nid yw'n briodol nac yn ddymunol ceisio diwygio'r darpariaethau hyn mewn perthynas â Chymru'n unig. Serch hynny, clywsom dystiolaeth gymhellol y bydd Bil y DU yn ei chael hi'n anodd cyflawni ei amcanion, oni bai bod y darpariaethau hyn yn cael eu cryfhau.

O gofio'r uchod, lle byddai ein hargymhellion ar gyfer diwygiadau yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â Chymru, disgwylwn i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â gweinyddiaethau eraill y DU gyda'r nod o sicrhau'r diwygiadau hynny.

Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a ddefnyddir

Casgliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam ei bod wedi methu â chyflawni ymrwymadau a roddwyd ganddi i'r Pwyllgor hwn yn flaenorol mewn perthynas â datblygu fframweithiau cyffredin y DU. Yn benodol, dylai esbonio pam na ddatblygwyd Bil y DU mewn cydweithrediad a pham na chafodd rhanddeiliaid eu cynnwys yn ddigon cynnar yn ei ddatblygiad. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi hyd yma bod y Cytundeb Rhynglywodraethol yn addas i'r diben..... Tudalen 22

Casgliad 2. Yn y dyfodol, disgwylwn i Lywodraeth Cymru wneud datganiad i'r Cynulliad i gyd-fynd â chyflwyno unrhyw Filiau'r DU yn sgil Brexit sy'n deddfu mewn perthynas â Chymru.

Yn ogystal, disgwylwn i Lywodraeth Cymru ddatgan yn gyhoeddus ei safbwynt ar y darpariaethau perthnasol mewn unrhyw Filiau o'r fath, nodi pwerau y mae'n ceisio eu sicrhau, pryd mae angen y pwerau hyn, a sut y byddant yn cael eu defnyddio. Dylai hefyd wahaniaethu rhwng y pwerau sydd eu hangen yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit, a'r rhai a fydd yn cael eu defnyddio i weithredu polisi yn y dyfodol..... Tudalen 23

Casgliad 3. Rydym yn cydnabod bod angen deddfwriaeth i sefydlu fframwaith cyffredin y DU ar gyfer rheoli pysgodfeydd ar ôl Brexit. Rydym yn fodlon bod mwyafrif y darpariaethau ym Mil y DU yn angenrheidiol i gyflawni hyn. Fodd bynnag, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i'r rheini sydd eu hangen i sefydlu fframwaith o'r fath. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro diben ac effaith y darpariaethau ychwanegol hyn. Fel y cyfryw, nid

ydym wedi ein hargyhoeddi hyd yma bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfiawnhad digonol ar gyfer y pwerau ychwanegol y mae'n eu ceisio trwy Fil y DU. Tudalen 23

Casgliad 4. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon yng Nghasgliad 3, dylai Llywodraeth Cymru egluro pwrpas ac effaith arfaethedig y pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru yn Atodlenni 4, 6 a 7. Dylai nodi pa rai o'r pwerau hyn sydd o natur frys, ac a fyddai'n rhesymol gohirio unrhyw rai o'r pwerau hyd nes bod cymhwysedd y Cynulliad wedi'i ymestyn i ganiatáu cyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol. Tudalen 23

Casgliad 5. Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros ei rhaglen ddeddfwriaethol. Dylai ymrwymo y bydd amser yn cael ei neilltuo yn y rhaglen ddeddfwriaethol i gyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru a'i basio cyn diwedd tymor y Pumed Cynulliad. Tudalen 23

Casgliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd yn sicrhau bod barn y Cynulliad yn cael ei hadlewyrchu ym Mil y DU, o ystyried y diffyg amser sydd ar gael cyn i Bil y DU gwblhau ei daith drwy Senedd San Steffan. Tudalen 23

Amcanion pysgodfeydd

Casgliad 7. Yn gyffredinol, rydym yn fodlon gyda'r amcanion pysgodfeydd, yn amodol ar ymrwymiad y bydd y Cyd-ddatganiadau Pysgodfeydd yn cynnwys cerrig milltir a, lle bo'n briodol, dargedau penodol ac uchelgeisiol y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd. Dylai'r rhain gael eu datblygu gan weinyddiaethau'r DU mewn cydweithrediad a dylent gynnwys gofyniad i beidio â mynd y tu hwnt i derfynau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â hyn fel rhan o'i thrafodaethau parhaus y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Tudalen 30

Casgliad 8. O fewn 6 blynedd o basio Bil y DU, dylai gweinyddiaethau'r DU gynnal adolygiad ar y cyd o'r amcanion pysgodfeydd i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru roi hyn ar waith gyda gweinyddiaethau eraill y DU gyda'r nod o sicrhau bod trefniadau ar gyfer adolygu'r amcanion wedi'u cynnwys ym Mil y DU. Os na ellir cytuno ar hyn, disgwyliwn i ymrwymiad i gynnal adolygiad gael ei gynnwys yn y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd. Tudalen 30

Casgliad 9. Fel rhan o'i hymgyngoriad "*Brexit a'n Moroedd*", dylai Llywodraeth Cymru archwilio a yw'n briodol cynnwys dyletswydd ym Mil pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Tudalen 31

Datganiadau pysgodfeydd

Casgliad 10. Dylai Bil y DU gael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd adrodd i'r ddeddfwrfa berthnasol ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu polisiau ac o ran cyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill yn hyn o beth.

Os na ellir dod i gytundeb, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adrodd i'r Cynulliad bob tair blynedd yn dechrau ar y dyddiad y caiff y JFS cyntaf ei gyhoeddi. Dylai'r adroddiad hwn ddefnyddio'r polisiau yn y JFS fel pwynt cyfeirio a dylai fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion pysgodfeydd ac amcanion perthnasol eraill, fel y rheini sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth Cymru. Tudalen 35

Casgliad 11. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro diben a chynnwys arfaethedig y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd hyd yma. Dyma fydd y sail i sut y mae'r fframwaith pysgodfeydd yn gweithredu. Mae'n anodd i'r Cynulliad farnu pa mor briodol yw cydsyniad heb y wybodaeth hon. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion fel mater o frys. Dylai egluro pa gyfleoedd fydd ar gael i randdeiliaid lywio datblygiad y Cytundeb a sut y gall y Cynulliad graffu arno. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r Cytundeb cyn gynted â phosibl..... Tudalen 36

Mynediad i bysgodfeydd Prydain

Casgliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod buddiannau pysgodfeydd Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn mewn trafodaethau ynghylch mynediad i farchnadoedd a chytundebau masnach gyda'r UE yn y dyfodol..... Tudalen 42

Casgliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion ar y cynnig i'r Sefydliad Rheoli Morol gyhoeddi trwydded unigol i longau pysgota tramor. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y byddai hyn yn effeithio ar ei phŵer i roi trwyddedau, yn arbennig, gallu Gweinidogion Cymru i osod amodau trwydded penodol ar gychod pysgota tramor mewn perthynas â pharth Cymru. Er enghraifft, mynnu bod monitro CCTV ar fwrdd llongau..... Tudalen 42

Casgliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y mae'n bwriadu defnyddio amodau trwyddedu ar gyfer llongau'r DU i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau amgylcheddol ym mharth Cymru. Yn arbennig, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd amodau trwydded yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â llygredd plastig a materion cysylltiedig eraill. Tudalen 42

Casgliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amgylchiadau lle mae'n rhagweld y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio'r pwerau yng nghymalau 9 ac 11, i newid yr eithriadau i wahardd llongau Prydeinig neu dramor rhag pysgota yn nyfroedd Prydain heb drwydded. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd unrhyw anghydfod posibl ynghylch arfer y pwerau hyn yn cael eu datrys. Yn y man lleiaf, rydym yn disgwyl i fecanwaith datrys anghydfod gael ei gynnwys yn y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd..... Tudalen 42

Cyfleoedd pysgota a rhannu cwota

Casgliad 16. Mae Bil y DU yn gyfle a gollwyd i ailfantoli'r annhegwch sylfaenol wrth ddyrannu cwota'r DU. Os nad yw hyn yn cael ei ddatrys, prin iawn fydd y manteision i bysgodfeydd Cymru yn sgil Brexit..... Tudalen 52

Casgliad 17. Awgrymwn y canlynol fel dull teg a chynaliadwy o ddyrannu cwota'r DU yn y dyfodol:

Yn gyntaf, dylai Erthygl 17 y CFP (sy'n cael ei ddiwygio gan Fil y DU) gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gan randdeiliaid. Yn arbennig, bod gormod o bwyslais ar y ddalfa hanesyddol wrth ddyrannu cwota ar draul meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Yn ail, dylai'r Concordat Pysgodfeydd gael ei adolygu i adlewyrchu pwyslais cynyddol ar feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddyrannu cwota i'r gwledydd sy'n rhan o'r DU. Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio'n llawn ar unrhyw adolygiad o'r Concordat Pysgodfeydd a gynhelir yn y dyfodol i sicrhau cynnydd yn y cwota a ddyrennir i Cymru.

Disgwylw'n i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â gweinyddiaethau'r DU i'r perwyl hwn..... Tudalen 52

Casgliad 18. Dylid dyrannu unrhyw gwota newydd sy'n deillio o Brexit yn unol â meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd yng nghyfran Cymru o'r cwota..... Tudalen 52

Casgliad 19. Rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch hyd a lled pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â phenderfynu ar gyfleoedd pysgota. Nodwn fod hwn yn llinell goch i'r Gweinidog. Credwn mai'r ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â'r mater hwn yw trwy ddiwygio Bil y DU. Tudalen 52

Casgliad 20. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon, hyd yma, i sicrhau cyfran deg o'r dyraniad cwota ar gyfer pysgodfeydd Cymru. Cyfyngodd Concordat Pysgodfeydd 2012 ar dwf y sector a rhoi pysgodfeydd Cymru dan anfantais ddifrifol. Wrth i'r DU adael yr UE, credwn fod rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy. Disgwylwn i'r Gweinidog ddarparu tystiolaeth glir o'r camau mae'n eu cymryd i sicrhau gwelliannau yng nghyfran Cymru o'r cwota. Tudalen 52

Pwerau cymorth ariannol a chyllid yn y dyfodol

Casgliad 21. Dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynigion ar gyfer unrhyw gynllun cymorth ariannol sy'n cael ei sefydlu yn y dyfodol o dan Atodlen 4. Disgwylwn i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn hyn o beth. Tudalen 58

Casgliad 22. Credwn fod gwerth mewn sicrhau bod unrhyw gynllun cymorth ariannol yn y dyfodol yn seiliedig ar yr amcanion pysgodfeydd. Credwn y dylid ystyried hyn fel rhan o ymgynghoriad "*Brexit a'n Moroedd*" Llywodraeth Cymru a dylai, os yw'n briodol, fod yn rhan o Fil pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Tudalen 58

Casgliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd trefniadau cyllido'r sector pysgodfeydd yn y dyfodol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig ac y bydd partneriaid yn cael eu trin â pharch cydradd. Dylai hefyd ofyn am ymrwymiad y dylai lefel y cyllid ystyried unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o Fil y DU. Tudalen 58

Casgliad 24. Mae'r wybodaeth ariannol a roddwyd i gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol eraill sy'n gysylltiedig â Brexit, y gofynnwyd i'r Pwyllgor hwn eu hystyried wedi bod yn enbyd o brin. Mae hyn wedi amharu ar y gwaith craffu. At hynny, mae diffyg gwybodaeth o'r fath yn golygu bod risg o gamarwain y Cynulliad ynghylch y goblygiadau ariannol posibl sy'n deillio o'r deddfwriaeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn. Os na fydd yn gwneud hynny, byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried hyn ac, os oes angen, cyflwyno diwygiadau priodol i'r Rheolau Sefydlog. Tudalen 58

Mynediad i farchnadoedd

Casgliad 25. Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad yn ein hadroddiad, *Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru*, y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth benodol ac uchelgeisiol i dyfu pysgodfeydd Cymru. Bydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Brexit a'n Moroedd*, yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth, a bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn llywio datblygiad polisi pysgodfeydd yn y dyfodol. Disgwylwn i'r ymgynghoriad adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf a chynnwys cynigion i liniaru'r risgiau cysylltiedig. Hefyd, dylai'r ymgynghoriad edrych ar ffyrdd o gefnogi cymunedau arfordirol, yn cynnwys drwy gael gofyniad bod cyfran o'r pysgod sy'n cael eu dal ym mharth Cymru yn cael eu glanio ym mhorthladdoedd Cymru.....Tudalen 63

Cynlluniau codi tâl i atal gwaredu pysgod

Casgliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, fel rhan o'i hymgyngghoriad "*Brexit a'n Moroedd*", a fyddai'n briodol cyflwyno cynllun codi tâl i atal gwaredu pysgod ym Mil pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol.....Tudalen 65

Argymhelliad

Rydym yn argymhell i'r Cynulliad ei fod yn cydsynio i'r darpariaethau ym Mil Pysgodfeydd y DU, yn amodol ar yr amodau canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru geisio diwygiadau i Fil y DU i weithredu casgliadau 8, 10, 18, 20 a 22; a

Dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymadau i'r Cynulliad, neu esboniadau lle bo'n briodol, mewn perthynas â'r materion a godwyd yng nghasgliadau 1, 4, 5, 6, 7, 9, 12, 14, 15, 16, 24 a 25.

Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i gasgliadau'r Cynulliad o leiaf ddeg diwrnod gwaith cyn dadl y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i benderfynu a aethpwyd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn ein hadroddiad i'r graddau sy'n cyfiawnhau rhoi cydsyniad.

Cyflwyniad

Ein dull

1. Ar 15 Tachwedd 2018, cyflwynodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU ('Bil y DU') gerbron y Cynulliad.
2. Ar 27 Tachwedd 2018, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes yr LCM i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor hwn'), y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a phennu dyddiad cau adrodd sef 12 Chwefror 2019.
3. Ar 10 Ionawr 2019, cyflwynodd y Gweinidog LCM Atodol, a gafodd ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes i'r Pwyllgor hwn hefyd, gyda'r un dyddiad cau ar adrodd.
4. Cyhoeddwyd cais gennym am dystiolaeth ar Fil y DU ac ar ddarpariaethau penodol Cymru ynddo.
5. Cawsom dystiolaeth gan academyddion a chynrychiolwyr o'r sector pysgodfeydd a'r sector amgylcheddol.
6. Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog a'i swyddogion ar 24 Ionawr 2019.

Adroddiad Pwyllgor, Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru

7. Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor hwn ei adroddiad, Effaith Brexit ar bysgodfeydd Cymru.

1. Bil Pysgodfeydd y DU a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

8. Ers 40 mlynedd a mwy, mae'r polisi pysgodfeydd wedi gweithredu yn unol â Pholisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) yr UE. Er bod rheoli pysgodfeydd yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae ei gwmpas y tu allan i 12 milltir forol (nm) wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i weinyddu'r cytundebau hyn.

9. Yn fras, mae'r CFP yn cwmpasu'r materion canlynol:

- Mynediad cyffredin ar gyfer llongau pysgota'r UE i Barthau Economaidd Unigryw (EEZ - 12-200nm) yr Aelod-wladwriaethau;
- Cyfanswm y Daliad a Ganiateir (TAC) a chyfleoedd pysgota ar gyfer stoc pysgod allweddol ar gyfer Aelod-wladwriaethau;
- Cynrychiolaeth Aelod-wladwriaethau mewn trafodaethau â thrydydd gwledydd ac mewn cytundebau pysgodfeydd rhyngwladol; a
- Deddfwriaeth rheoli pysgodfeydd sy'n uniongyrchol gymwys, gan gynnwys ar fesurau technegol manwl, a rheolaeth a gorfodi.

10. Ar hyn o bryd, Llywodraeth y DU, gan gynrychioli'r DU fel Aelod-wladwriaeth, sy'n trafod materion sy'n ymwneud â'r CFP gyda'r UE. Yn yr un modd, bydd Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS).

11. O dan holl senarios Brexit, bydd y DU yn gadael y CFP.

Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU

12. Mae'r Nodiadau Esboniadol (Nodiadau) sy'n cyd-fynd â'r Bil Pysgodfeydd y DU ('Bil y DU') yn datgan y bydd y Bil yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig weithredu fel gwladwriaeth arfordirol annibynnol ar ôl i'r DU adael yr UE a'r CFP. Mae'r Nodiadau'n esbonio bod y Bil yn gwneud y canlynol:

“creates common approaches to fisheries management between the UK government and the Devolved Administrations, known collectively

as the Fisheries Administrations, and makes reforms to fisheries management in England.”¹

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

13. Gofynnir am ganiatâd y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau canlynol ym Mil y DU (fel y'i cyflwynwyd) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru:

- Cymalau 1 i 6 (Amcanion pysgodfeydd a datganiadau pysgodfeydd) ac Atodlen 1 (Datganiadau pysgodfeydd: paratoi a chyhoeddi);
- Cymalau 7 ac 8 (Mynediad i bysgodfeydd Prydeinig);
- Cymalau 9 i 13 (Trwyddedu cychod pysgota) ac Atodlen 2 (Trwyddedau pysgota môr: darpariaeth bellach);
- Cymalau 14 i 17 (Mynediad a thrwyddedu: troseddau a diwygiadau canlyniadol) ac Atodlen 3 (Mynediad a thrwyddedu: diwygiadau canlyniadol);
- Cymalau 18 i 21 (Cyfleoedd pysgota);
- Cymalau 28 a 30 (Grantiau a thaliadau) ac Atodlen 4 (Cymorth Ariannol); a
- Chymalau 31 i 38 (Pwerau i wneud darpariaeth bellach), Atodlen 6 (Pwerau i wneud darpariaeth bellach: Awdurdodau Datganoledig) ac Atodlen 7 (Pwerau sy'n ymwneud ag ymelwa ar adnoddau pysgodfeydd môr).

14. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn egluro pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r darpariaethau uchod gael eu cynnwys yn y Bil yn y DU:

“Mae'r Bil Pysgodfeydd yn creu elfennau deddfwriaethol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli a chefnogi pysgodfeydd a chymorth wedi ymadael â'r UE. Dim ond trwy Fil y DU, sy'n darparu set unffurf o ymrwymadau ac amcanion, y byddai'n briodol cymhwyso'r darpariaethau hyn.

A ninnau'n gadael yr UE ym mis Mawrth 2019, nid oes amser i ddeddfwriaeth addas basio trwy'r Cynulliad. Byddai Bil Cynulliad o'r fath ond yn gallu delio gyda'r trefniadau gweinyddol angenrheidiol yn

¹ <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0278/en/18278en01.htm>

gysylltiedig â Chymru ac mae Bil arfaethedig Pysgodfeydd y DU yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, parth Cymru a chychod pysgota yng Nghymru y tu hwnt i'r parth hwnnw fel y bo'n briodol.

O dan y trefniadau datganoli presennol, ni fyddai Deddf gan y Cynulliad yn gallu gwneud yr holl ddarpariaethau fyddai eu hangen i wneud Bil ystyrlon. Mae hynny'n golygu ein bod yn dibynnu'n rhannol ar Fil Pysgodfeydd y DU ac yn rhannol ar Fil Pysgodfeydd Cymreig.”

15. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod Llywodraeth Cymru “ar y cyfan yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftwyd, ar wahân i gymal 18 (Pŵer Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota)”. Rydym yn trafod hyn yn fanylach ym mhennod 6.

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

16. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn nodi'r diwygiadau a wnaed i Fil y DU yn ystod y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae rhai o'r rhain yn dechnegol eu natur (er enghraifft, diwygiadau canlyniadol ychwanegol). Fodd bynnag, gwnaed y prif ddiwygiadau canlynol:

- Mae Cymal 39² Newydd (Cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru) yn ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad y tu hwnt i 12nm, er mwyn cynnwys parth Cymru. Byddai hyn yn alinio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad â phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.
- Ar gais Llywodraeth Cymru, diwygiwyd Atodlen 3 i gynnwys diwygiadau i Reoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru o hyd. Mae'r rhain a'r diwygiadau hyn yn galluogi newidiadau i drwyddedau a hysbysiadau i gael eu hysbysu i ddeiliaid trwyddedau drwy eu cyhoeddi ar wefan. Mae deddfwriaeth gyfatebol sy'n ymwneud â thrwyddedau a hysbysiadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon eisoes wedi'i diwygio i'r perwyl hwn.

² Ym Mil y DU, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus.

2. Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a ddefnyddiwyd

Prif bwrpas Bil y DU yw sefydlu fframwaith ledled y DU ar gyfer rheoli pysgodfeydd ar ôl Brexit.

17. Ar ôl i'r DU adael yr UE, ni fydd y DU bellach yn rhan o CFP yr UE. Fe fydd yn dod yn wladwriaeth arfordirol annibynnol a bydd yn gwbl gyfrifol am reoli pysgodfeydd ym Mharth Economaidd Unigryw (EEZ) y DU o 12-200 nm. Ym mhob senario Brexit, bydd y DU yn parhau i gael ei rhwymo gan ofynion yr UNCLOS.

18. Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ('Deddf 2018') yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trosi rheoliadau pysgodfeydd presennol yr UE i ddeddfwriaeth y DU.

19. Bil Pysgodfeydd y DU yw'r fframwaith cyffredin cyntaf o dan y Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin a'r cyntaf i'w sefydlu drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'n rhoi pwerau i Lywodraeth y DU bennu cyfleoedd pysgota ar gyfer dyfroedd y DU, ac mae'n rhoi pwerau i Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â physgodfeydd. Yn ogystal, bydd yn dirymu neu'n diwygio nifer o Erthyglau yn y Rheoliadau CFP.

20. Mae Bil y DU yn cynnwys pwerau dirprwyedig helaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mewn llawer o achosion, rhoddir pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru (a gweinyddiaethau datganoledig eraill). Er enghraifft, pŵer i roi trwyddedau pysgota môr, pŵer i roi cymorth ariannol i'r diwydiant pysgota, a phŵer i ddiwygio cyfraith y DU (gan gynnwys cyfraith yr Undeb Ewropeaidd) at ddibenion pysgodfeydd rhestredig ac mewn perthynas â materion pysgodfeydd rhestredig.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

21. Cafwyd cefnogaeth eang gan rhanddeiliaid ar gyfer Bil y DU fel modd o sefydlu fframwaith cyffredin y DU ar gyfer rheoli pysgodfeydd ar ôl Brexit.

22. Cyfeiriodd yr Athro Barnes o Brifysgol Hull at Fil y DU fel darn o ddeddfwriaeth sydd wedi'i strwythuro'n lled dda, a oedd yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng Llywodraeth ganolog y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Eglurodd y byddai'r Bil yn sefydlu fframwaith ar y cyd, i'w ddatblygu ar y cyd gan wahanol weinyddiaethau'r DU. Serch hynny, dywedodd yr Athro Barnes:

“...whilst the legal framework is there...ultimately, many of these decisions are going to be done outside of the legal process—they're going to be negotiated. And the question is then: are the provisions sufficiently well drafted, are there sufficient commitments in place, to ensure that that political process is conducted fairly and transparently?”³

23. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn fodlon bod Bil y DU yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau dull cyffredin ar draws y DU, lle bo angen, ond yn llwyddo i barchu'r setliad datganoli hefyd. Dywedodd Griffin Carpenter o'r New Economics Foundation fod y dull a ddefnyddir ym Mil y DU yn gadael llawer o'r gwaith o reoli pysgodfeydd i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd gan gynnwys Llywodraeth Cymru.⁴

Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd

24. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cyfeirio at “Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd”, sy'n cael ei ddisgrifio fel cytundeb “y mae holl weinyddiaethau pysgodfeydd y DU yn bwriadu cytuno arno wrth inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd”.⁵

Craffu a thryloywder

25. Nododd Jon Parker o CamNesa Consultancy na fu unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion polisi na chynigion deddfwriaethol ar gyfer pysgodfeydd yng Nghymru ar ôl Brexit. Nododd fod disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymgyngoriad, *Brexit a'n moroedd*, yn fuan.

26. Wrth gyfeirio at y graddau y mae'n rhesymol ac yn briodol i Fil y DU roi pwerau dirprwyedig helaeth i Weinidogion Cymru, dywedodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA) nad oedd llawer o ddewis, o ystyried yr amserlenni.⁶ Er na wnaeth WEL sylwadau ar briodoldeb rhoi pwerau yn y modd hwn, pwysleisiodd yr angen i ystyried yr amser a oedd ar gael i roi deddfwriaeth briodol ar waith.⁷

³ Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 16 Ionawr 2019

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, New Economics Foundation

⁵ www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12027/lcm-ld12027-w.pdf

⁶ Cofnod y Trafodion, 142, 16 Ionawr 2019

⁷ Cofnod y Trafodion, 272-275, 16 Ionawr 2019

27. Nododd sawl rhanddeiliad bwysigrwydd lefel briodol o graffu i sicrhau bod y pwerau a roddir yn cael eu harfer yn rhesymol ac yn briodol. Nododd WEL a Greener UK y gellid eu defnyddio i wneud newidiadau mawr i fesurau rheoli pysgodfeydd. Roedden nhw'n credu y dylid sefydlu gweithdrefn ymgynghori ffurfiol gan ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid cyn cyflwyno polisiau a deddfwriaeth newydd. Mynegwyd barn debyg gan y New Under Ten Fishermen's Association (NUTFA).⁸

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a Bil pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol

28. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y cymal 39 newydd, ac yn nodi:

“Mae sicrhau bod y diwygiad hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil yn gam pwysig ymlaen yn gyfansoddiadol a bydd yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno Bil Pysgodfeydd gan y Cynulliad mewn perthynas â Chymru, parth Cymru a chychod pysgota o Gymru y tu allan i'r parth hwnnw.”

29. Yn ystod trafodion Seneddol ar Fil y DU, cyfeiriodd George Eustice AS, y Gweinidog Gwladol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) at y darpariaethau hyn a dywedodd:

“I can indeed confirm that we have developed the new clause in conversation with the Welsh Government. It was a specific request that they made after the Bill had been published and as it approached Second Reading, and we needed to go through the Government write-round process to get agreement to make the change. Obviously, there was earlier legislation as recently as two years ago in which Executive competence was given to the Welsh Government. At that point, they did not ask for legislative competence; I think everybody can agree that that was probably an oversight at the time and it is now important that they have that legislative competence.”⁹

30. Nododd sawl rhanddeiliad, gan gynnwys WFA a Griffin Carpenter, fod Bil y DU yn ddarn o ddeddfwriaeth fframwaith ac felly nid oedd yn pennu polisiau

⁸ Cofnod y Trafodion, 144, 16 Ionawr 2019

⁹ https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmpublic/Fisheries/PBC278_Fisheries_1st-10th%20pt2_Combined_17_12_2018.pdf

manwl at y dyfodol. Awgrymodd y WFA ei bod hi'n anodd asesu'r angen am Fil pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol hyd nes ein bod wedi diffinio ein polisi.¹⁰

Tystiolaeth y Gweinidog

31. Eglurodd y Gweinidog nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod ynghlwm wrth ddatblygu Bil y DU ar lefel y byddai hi wedi ei hoffi.¹¹ Fodd bynnag, ers cyflwyno Bil y DU, roedd lefel yr ymgysylltiad rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi gwella a chafwyd gwelliannau sylweddol i'r Bil diolch i fewnbwn Llywodraeth Cymru.¹² Er enghraifft, gwelliant i Fil y DU (yn y cymal 39 newydd) a fydd yn ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â pysgodfeydd.

32. O ran y graddau y mae Bil y DU yn cynnwys darpariaethau sy'n ychwanegol at y rheini sy'n angenrheidiol i sefydlu fframwaith cyffredin y DU ar gyfer pysgodfeydd, dywedodd y Gweinidog:

“Mae'r Bil yn darparu cyfres gynhwysfawr o bwerau rheoli pysgodfeydd ar gyfer y DU, yn cynnwys ystod eang o bwerau i Weinidogion Cymru...”¹³

33. Eglurodd y Gweinidog ei bod wedi gofyn am bwerau yn Atodlen 4 (Cymorth Ariannol), Atodlen 6 (Pŵer i wneud darpariaethau pellach: Awdurdodau Datganoledig) ac Atodlen 7 (Pwerau sy'n ymwneud ag ymelwa ar adnoddau pysgodfeydd môr). Dywedodd “ni ellid fod wedi cynnwys yr un o'r darpariaethau hyn mewn Bil Pysgodfeydd i Gymru yn eu ffurf bresennol”¹⁴ gan nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol ar hyn o bryd ar gyfer yr ardal o barth Cymru sydd y tu hwnt i Gymru. Byddai ychwanegu drwy ddiwygiad gymal 39 ym Mil y DU, a fyddai'n ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn mynd i'r afael â hyn.

34. Pwysleisiodd y Gweinidog “na fydd sicrwydd” y bydd cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei ymestyn hyd nes daw Bil y DU yn gyfraith.

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 24 Ionawr 2019

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 24 Ionawr 2019

¹³ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

¹⁴ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

Felly, roedd hi o'r farn ei bod hi'n "ddoeth ceisio sicrhau'r holl bwerau angenrheidiol ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil Pysgodfeydd y DU".¹⁵

35. Wrth gyfeirio at y pwerau hynny ym Mil y DU sy'n ymestyn y tu hwnt i sefydlu fframwaith cyffredin ar gyfer y DU, esboniodd y Gweinidog, pe na bai'r pwerau hyn yn cael eu cynnwys ym Mil y DU, y "byddai gan Lywodraeth Cymru ystod fwy cul o bwerau ar gyfer rheoli ein hamgylchedd morol a'n stoc o bysgod na'r Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill". Byddai hyn yn "llesteirio gallu [Llywodraeth Cymru] i reoli ein hamgylchedd morol yn effeithiol ar ôl gadael yr UE".¹⁶

36. Pan ofynnwyd iddi gadarnhau a oedd hi'n bwriadu cyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru, dywedodd y Gweinidog:

"At the moment, I would say I fully intend to bring one. It's just the timing of it."¹⁷

37. Yn ddiweddarach, cadarnhaodd ei fod yn fwriad ganddi i Fil pysgodfeydd i Gymru gael ei basio cyn diwedd y Cynulliad hwn.¹⁸

38. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n ystyried sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac yn ceisio sicrhau trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU, fel sy'n briodol, er mwyn sicrhau bod y Bil yn diwallu anghenion Cymru. Fodd bynnag, esboniodd hwyrach mai prin fyddai'r cyfleoedd pellach i ddylanwadu ar y Bil, oherwydd bod ei amserlen drwy Senedd San Steffan yn symud yn ei blaen yn gynt nag arfer.¹⁹

39. Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog y bydd y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd yn nodi amcanion cyffredin awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU. Dywedodd y bydd y cytundeb fframwaith yn cael ei ategu gan ystod o femoranda dealltwriaeth sy'n amlinellu sut y bydd yr awdurdodau polisi yn gweithio gyda'i gilydd.

¹⁵ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

¹⁶ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 24 Ionawr 2019

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 31-33, 24 Ionawr 2019

¹⁹ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

Byddant yn cael eu cefnogi gan fecanweithiau cyd-lywodraethu effeithiol a mecanweithiau addas ar gyfer datrys anghydfod.²⁰

Ein barn

Ers dros 40 mlynedd, mae'r polisi pysgodfeydd yng Nghymru wedi'i lywodraethu'n bennaf ar lefel yr UE. Mae gadael yr UE a'r CFP yn rhoi cyfle unigryw i Lywodraeth Cymru ailystyried ei dull gweithredu mewn perthynas â'r polisi pysgodfeydd: cadarnhau o'r newydd ei hymrwymiad i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy, a cheisio canfod ffyrdd o wella a datblygu'r diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru.

Bydd Bil Pysgodfeydd y DU yn darparu'r sylfeini ar gyfer polisi pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Mae'n hanfodol, felly, bod y darpariaethau yn y Bil yn briodol ac yn ddichonadwy yng nghyd-destun datganoli, ac y byddant yn galluogi datblygiad polisi sy'n diwallu anghenion penodol pysgodfeydd Cymru ar ôl Brexit.

Bil y DU yw'r fframwaith cyffredin deddfwriaethol cyntaf i'w gyflwyno o dan y *Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'r Fframweithiau Cyffredin Sefydledig*.

Daeth y Pwyllgor hwn i nifer o gasgliadau mewn perthynas â datblygu fframweithiau cyffredin y DU yn ei adroddiad, *Fframweithiau cyffredin ar gyfer yr amgylchedd ar ôl Brexit* (Gorffennaf 2018). Mae'r casgliadau hynny'n uniongyrchol berthnasol i Fil Pysgodfeydd y DU.

Cydweithrediad rhynglywodraethol

Fel i'r Pwyllgor ddatgan yn glir yn yr adroddiad uchod, bydd gadael yr UE yn gofyn am gysylltiadau rhynglywodraethol newydd.

Roedd y Pwyllgor yn glir y bydd angen model cyd-lywodraethu, gyda statws cyfartal ar gyfer pob un o rannau cyfansoddol y DU. Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen am: ddull annibynnol o ddatrys anghydfod; mecanweithiau cyflafareddu a dyfarnu; a thryloywder ac atebolrwydd.

²⁰ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n dymuno gweld mwy o dystiolaeth o gydweithio rhynglywodraethol effeithiol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu fframweithiau cyffredin.

Mynegodd y Pwyllgor farn debyg yn ei adroddiad, *Dyfodol rheoli tir yng Nghymru* (Mawrth, 2017) a'r *Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU* (Ionawr 2019).

Tryloywder a chraffu

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei bod yn bwysig, "yn ystod y trafodaethau manwl hyn am reolau a strwythurau, nad yw llywodraethau yn colli golwg ar rôl a hawliau'r dinesydd. Rydym yn cytuno â'n rhanddeiliaid bod rhaid i ni sicrhau cyfleoedd i ddinasyddion, busnes a'r gymdeithas sifil ymgysylltu â'r broses llunio penderfyniadau a gweithredu".

Datblygu Bil Pysgodfeydd y DU

Yn ei *hymateb i adroddiad y Pwyllgor hwn ar Fframweithiau Cyffredin ar gyfer yr Amgylchedd ar ôl Brexit* (Gorffennaf 2018), dywedodd y Gweinidog:

"The Inter-Governmental Agreement ensures that the development of all Common Frameworks is undertaken collaboratively."

Nid felly oedd hi yn achos Bil Pysgodfeydd y DU. Credwn fod hyn yn annerbyniol. Er gwaethaf sylwadau'r Gweinidog i'r gwrthwyneb, mae'n amlwg nad yw'r Cytundeb Rhynglywodraethol wedi gweithio fel y rhagwelwyd. Nid yw hyn yn argoeli'n dda ar gyfer gweithredu'n llwyddiannus ddarpariaethau allweddol y Bil a pharhau i'w gweithredu, gan fod hynny'n dibynnu ar gydweithio a chydweithredu rhynglywodraethol. Bydd hyn yn angenrheidiol nid yn unig rhwng llywodraethau Cymru a'r DU, ond rhwng pob un o bedair gweinyddiaeth y DU hefyd.

At hynny, yn ei *hymateb i adroddiad y Pwyllgor hwn ar Fframweithiau Cyffredin ar gyfer yr Amgylchedd ar ôl Brexit* (Gorffennaf 2018), dywedodd y Gweinidog:

"As the current phase of work continues and policy approaches for each Common Framework begins to be developed these will be tested with stakeholders."

Felly, rydym yn siomedig na fu unrhyw ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru wrth i Fil y DU gael ei ddatblygu.

Rydym yn siomedig hefyd i Lywodraeth Cymru ddewis peidio â datgan ei barn ar Fil y DU pan gyflwynwyd y Bil gerbron Senedd San Steffan. Credwn fod y diffyg gwybodaeth hwn wedi llesteirio ein gwaith craffu ar Fil y DU.

Hyd a lled y pwerau

Yn ychwanegol at y darpariaethau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn sefydlu fframwaith cyffredin y DU, mae Bil y DU yn rhoi pwerau eang ychwanegol i Weinidogion Cymru. Er bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn egluro'r rhesymau dros gynnwys y darpariaethau hyn ym Mil y DU, nid ydynt yn esbonio bwriad y polisi na sut a phryd y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynigion ar gyfer y polisi pysgodfeydd ar ôl Brexit hyd yma a bydd yn cynnal ymgynghoriad ar y mater hwn yn fuan. Mae ein pryderon mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU yr un mor berthnasol i'r Bil hwn - diffyg cyfiawnhad dros gymryd pwerau eang, pan nad yw Llywodraeth Cymru yn gwybod eto ei dull gweithredu hirdymor mewn perthynas â physgodfeydd.

Bil pysgodfeydd i Gymru

Ar hyn o bryd, ni allai Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru sy'n mynd i'r afael â'r holl faterion y byddai'n dymuno, oherwydd cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae Bil y DU yn gwneud darpariaeth i fynd i'r afael â hyn (drwy gynnwys y cymal 39 newydd). Unwaith y caiff y Bil hwn ei ddeddfu, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru, fel y mae wedi ymrwymo i'w wneud. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod hi'n bwriadu pasio Bil pysgodfeydd i Gymru cyn diwedd y Pumed Cynulliad. Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros ei rhaglen deddfwriaethol a dylai flaenoriaethu deddfwriaeth sy'n deillio o Brexit, gan gynnwys Bil pysgodfeydd i Gymru.

Yn olaf, rydym yn bryderus, yn ystod y cam hwn yn y broses graffu ar ddeddfwriaeth, a chyda amserlen gynt na'r arfer drwy Senedd San Steffan, mai prin fydd y cyfle i Lywodraeth Cymru geisio dylanwadu ar Fil y DU cyn iddo orffen ei daith drwy'r Senedd. Mae hyn o bryder arbennig, o gofio bod y Gweinidog wedi ymrwymo i ystyried nifer o feysydd gyda'r posibilrwydd o'u diwygio.

Casgliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam ei bod wedi methu â chyflawni ymrwymadau a roddwyd ganddi i'r Pwyllgor hwn yn flaenorol mewn

perthynas â datblygu fframweithiau cyffredin y DU. Yn benodol, dylai esbonio pam na ddatblygwyd Bil y DU mewn cydweithrediad a pham na chafodd rhanddeiliaid eu cynnwys yn ddigon cynnar yn ei ddatblygiad. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi hyd yma bod y Cytundeb Rhynglywodraethol yn addas i'r diben.

Casgliad 2. Yn y dyfodol, disgwyliwn i Lywodraeth Cymru wneud datganiad i'r Cynulliad i gyd-fynd â chyflwyno unrhyw Filiau'r DU yn sgil Brexit sy'n deddfu mewn perthynas â Chymru.

Yn ogystal, disgwyliwn i Lywodraeth Cymru ddatgan yn gyhoeddus ei safbwynt ar y darpariaethau perthnasol mewn unrhyw Filiau o'r fath, nodi pwerau y mae'n ceisio eu sicrhau, pryd mae angen y pwerau hyn, a sut y byddant yn cael eu defnyddio. Dylai hefyd wahaniaethu rhwng y pwerau sydd eu hangen yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit, a'r rhai a fydd yn cael eu defnyddio i weithredu polisi yn y dyfodol.

Casgliad 3. Rydym yn cydnabod bod angen deddfwriaeth i sefydlu fframwaith cyffredin y DU ar gyfer rheoli pysgodfeydd ar ôl Brexit. Rydym yn fodlon bod mwyafrif y darpariaethau ym Mil y DU yn angenrheidiol i gyflawni hyn. Fodd bynnag, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i'r rheini sydd eu hangen i sefydlu fframwaith o'r fath. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro diben ac effaith y darpariaethau ychwanegol hyn. Fel y cyfryw, nid ydym wedi ein hargyhoeddi hyd yma bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfiawnhad digonol ar gyfer y pwerau ychwanegol y mae'n eu ceisio trwy Fil y DU.

Casgliad 4. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon yng Nghasgliad 3, dylai Llywodraeth Cymru egluro pwrpas ac effaith arfaethedig y pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru yn Atodlenni 4, 6 a 7. Dylai nodi pa rai o'r pwerau hyn sydd o natur frys, ac a fyddai'n rhesymol gohirio unrhyw rai o'r pwerau hyd nes bod cymhwysedd y Cynulliad wedi'i ymestyn i ganiatáu cyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol.

Casgliad 5. Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros ei rhaglen ddeddfwriaethol. Dylai ymrwymo y bydd amser yn cael ei neilltuo yn y rhaglen ddeddfwriaethol i gyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru a'i basio cyn diwedd tymor y Pumed Cynulliad.

Casgliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd yn sicrhau bod barn y Cynulliad yn cael ei hadlewyrchu ym Mil y DU, o ystyried y diffyg amser sydd ar gael cyn i Bil y DU gwblhau ei daith drwy Senedd San Steffan.

3. Amcanion pysgodfeydd

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bedair gweinyddiaeth y DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddatgan eu polisiau i gyflawni nifer o amcanion pysgodfeydd ar lefel y DU.

40. Mae Cymal 1 Bil y DU yn nodi “amcanion pysgodfeydd” y DU ar gyfer Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig. Dyma’r amcanion:

- yr amcan cynaliadwyedd;
- yr amcan rhagofalus;
- yr amcan ecosystem;
- yr amcan tystiolaeth wyddonol;
- yr amcan pysgod taflu yn ôl;
- yr amcan mynediad cyfartal.

41. Mae’r amcanion hyn yn adlewyrchu, i wahanol raddau, rai o’r amcanion yn Erthygl 2 Rheoliadau’r CFP, yn cynnwys sicrhau bod pysgota a dyframaeth yn gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn cael eu rheoli mewn ffordd sy’n gyson â sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol a chyflogaeth, a chymhwyso defnyddio dull egwyddor ragofalus wrth reoli pysgodfeydd.

42. Mae Rheoliad y CFP yn gosod dyletswydd ar Aelod-wladwriaethau i fodloni’r amcanion yn Erthygl 2. Nid oes dyletswydd gyfatebol ar weinyddiaethau’r DU i fodloni’r amcanion pysgodfeydd ym Mil y DU.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

Amcanion pysgodfeydd

43. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn croesawu cynnwys yr amcanion pysgodfeydd ym Mil y DU. Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y ffaith fod rhai amcanion yn wannach na’r rheini yn rheoliadau’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, a bod rhai o’r termau a ddefnyddir yng nghymal 1 yn agored eu dehongliad. Er enghraifft:

- Roedd yr “amcan cynaliadwyedd” yn ddiangen o wan a dylai fod yn fwy penodol a bod â mwy o ffocws. Yn wahanol i Erthygl 2 o Reoliadau’r CFP,

nid yw'n cynnwys gofyniad i sicrhau safon byw deg ar gyfer pysgotwyr a'u cymunedau arfordirol.²¹

- Roedd yr ymrwymiad i ddull rheoli ar lefel yr ecosystem yn ganmoladwy, ond roedd y term yn un eang iawn ac nid oedd yn cael ei ddeall yn dda.²²
- Dylid diwygio'r "amcan ecosystem" i gynnwys gofyniad i gyfrannu at gyflawni "statws amgylcheddol da" erbyn 2020. Byddai hyn yn adlewyrchu Rheoliadau'r CFP ac yn gydnaws ag ysbryd deddfwriaeth amgylcheddol Cymru.²³
- Dylid cryfhau'r "amcan gwyddonol" er mwyn ei gwneud yn ofynnol i weinyddiaethau pysgodfeydd ddilyn cyngor gwyddonol sy'n sicrhau bod stoc pysgod yn cael ei hadfer a chynaliadwyedd i'r holl randdeiliaid.²⁴ Hefyd, dylid ei ymestyn i gynnwys cofnod llawn a dilysadwy o ddaliadau i sicrhau darlun gwir a chywir o'r hyn sy'n cael ei gymryd allan o'r môr.²⁵

44. Awgrymodd yr Athro Barnes y dylai'r amcanion gael eu hehangu i gynnwys yr hyn sy'n cael eu hystyried yn egwyddorion rheolaeth dda o bysgodfeydd. Er enghraifft, dyrannu cyfleoedd pysgota yn deg, dull gweithredu integredig mewn perthynas â physgodfeydd a gweithgareddau morol/arfordirol eraill, a chydawnsedd mesurau ar gyfer stociau a rennir. Yn ôl yr Athro Barnes, byddai hyn yn darparu penderfynwyr â fframwaith cyfeirio cryfach ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn nyfroedd y DU.²⁶

Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf

45. Mae Cymal 1 (3) yn nodi'r amcan rhagofalus, sef:

- sef defnyddio'r dull rhagofalus o reoli pysgodfeydd.
- sicrhau bod ymelwa ar adnoddau biolegol morol yn adfer ac yn cynnal poblogaethau o rywogaethau a gynaeafwyd uwchlaw lefelau biomas sy'n gallu cynhyrchu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf.

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NUTFA

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 16 Ionawr 2019

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Bryce D Stewart

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 288, 16 Ionawr 2019

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Richard Barnes

46. Er bod hyn yn dyblygu'r amcan cyfatebol yn Erthygl 2 Rheoliadau'r CFP i raddau helaeth, mae'r CFP yn mynd ymhellach ac yn ymrwymo Aelod-wladwriaethau i gyflawni cyfradd ymelwa cynnyrch cynaliadwy mwyaf²⁷ ar gyfer yr holl stociau pysgod (h.y. i roi diwedd ar orbysgota) erbyn 2020 (targed y CFP).

47. Mynegodd academyddion a chynrychiolwyr o sefydliadau amgylcheddol bryder ynghylch absenoldeb targed y CFP. Yn ôl WEL a Greener UK, mae hyn yn hanfodol er mwyn gwarchod rhag pwysau gwleidyddol yn y byrdymor i bennu terfynau dalfeydd sy'n uwch na chyingor gwyddonol, a fyddai'n arwain at orbysgota ac yn niweidio iechyd ein moroedd.²⁸ Roedd Griffin Carpenter o'r farn bod hwn yn hepgoriad enbyd o Fil y DU.²⁹

48. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd WEL a Greener UK:

“There must be a target for fishing limits to be set at sustainable levels by 2020 and an immediate duty to deliver on restoring stocks to healthy biomass levels. The setting of fishing limits is within our direct control and the 2020 target is certainly achievable and already represents the latest date by which exploitation rates must be set at sustainable levels...”³⁰

49. Cyfeiriodd Griffin Carpenter at darged y CFP fel un o'r elfennau pwysicaf i'w cynnwys adeg diwygio'r CFP yn 2013 a galwodd am newid Bil y DU i gynnwys dyletswydd i osod cyfleoedd pysgota yn unol â'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf erbyn 2020 a thu hwnt.³¹ Fodd bynnag, awgrymodd y gallai Bil y DU gynnwys yn syml ymrwymiad y dylai cyfleoedd pysgota gael eu pennu yn unol â'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf.³² Gwnaethpwyd pwynt tebyg gan yr Athro Barnes.³³

50. Roedd Dr Bryce Stewart o Brifysgol Efrog hefyd yn cefnogi cynnwys targed cynnyrch cynaliadwy mwyaf y CFP³⁴ ac esboniodd y gallai disgwyliadau uchel y

²⁷ Mae rheoliadau'r CFP yn diffinio'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf fel a ganlyn: “the highest theoretical equilibrium yield that can be continuously taken on average from a stock under existing average environmental conditions without significantly affecting the reproduction process”.

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, New Economics Foundation

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, New Economics Foundation

³² Cofnod y Trafodion, 43, 16 Ionawr 2019

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Richard Barnes

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 16 Ionawr 2019

bydd cyfleoedd dal y DU (ei siâr o'r cwota) yn cynyddu ar ôl Brexit arwain at orbysgota os nad oes cydweithio cryf a chytundeb wrth reoli stociau a rennir".³⁵

51. Roedd gan y rhai sy'n cynrychioli'r diwydiant farn wahanol ac roeddent yn croesawu diffyg targed penodol ar gyfer cynnyrch cynaliadwy mwyaf. Dywedodd y WFA fod y targed y CFP cyfredol wedi bod yn heriol. Felly roedd yn ffafrio'r dull a gymerwyd ym Mil y DU:

"...whilst retaining the MSY objective [the Bill] has removed the arbitrary MSY timetable together with the unscientific and unachievable language with which the concept of MSY was expressed within the CFP."³⁶

52. Mynegodd NUTFA farn debyg gan ddweud bod cynnyrch cynaliadwy mwyaf yn ddyhead fel rhan o ddarlun ehangach rheoli pysgodfeydd, ond ni ddylid ei ddefnyddio fel y pwynt rhesymegol a'r unig bwynt rhesymegol ar gyfer rheoli pysgodfeydd.³⁷

Rhwymedigaethau glanio neu waredu pysgod

53. Mae Cymal 1(6) yn nodi'r "amcan gwaredu pysgod", sef dileu gwaredu pysgod yn raddol, fesul achos, drwy:

- osgoi a lleihau, i'r graddau sy'n bosibl, dalfeydd diangen, a
- sicrhau'n raddol bod dalfeydd yn cael eu glanio yn raddol.

54. Mae hyn yn dyblygu'r amcan yn Erthygl 2 o Reoliadau'r CFP. Fodd bynnag, mae Erthygl 15 yr un Rheoliadau (sydd heb ei ddiwygio gan Fil y DU) yn cyflwyno rhwymedigaeth glanio, neu'r "gwaharddiad gwaredu pysgod". Mae'r rhwymedigaeth glanio yn ei gwneud yn ofynnol i bob dalfa o rywogaethau masnachol sy'n cael eu rheoleiddio gael ei glanio a'i chyfrif yn erbyn cwota. Felly, nid yw pysgod sydd wedi cael eu dal yn gallu cael eu gwaredu yn y môr bellach. Mae'r rhwymedigaeth glanio wedi cael ei chyflwyno fesul cam ar draws pysgodfeydd a rhywogaethau, gyda'r rhwymedigaeth lawn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2019.

55. Mynegodd y rhanddeiliaid a gyflwynodd sylwadau ar yr amcan gwaredu farn gymysg. Dywedodd yr Athro Barnes fod y berthynas rhwng yr amcan gwaredu a

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Bryce D Stewart

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NUTFA

rhwymedigaeth glanio'r CFP yn aneglur ond ei bod yn awgrymu cam yn ôl.³⁸ Mynegodd Dr Stewart bryder bod yr amcan ym Mil y DU yn llai llym a chynhwysfawr na rhwymedigaeth glanio'r CFP.³⁹

56. Ar y llaw arall, roedd y WFA yn croesawu'r amcan gwaredu, ac roedd o'r farn bod yr amcan yn uchelgeisiol ac yn realistig ac yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng polisi ac ymarfer. Yn ôl y WFA, nid oedd rhwymedigaeth glanio'r CFP yn llwyddo i ystyried cymhlethdodau'r gwaith o reoli pysgodfeydd a'i fod wedi creu anawsterau dwys i'r diwydiant pysgota a rheolwyr pysgodfeydd.⁴⁰

Absenoldeb dyletswydd i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd

57. Un o brif feirniadaethau rhanddeiliaid mewn perthynas â Bil y DU oedd diffyg dyletswydd ar awdurdodau polisi pysgodfeydd i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Yn hytrach, mae'n rhaid i awdurdodau polisi pysgodfeydd (a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO)) arfer eu swyddogaethau yn unol â'r Cyddatganiad Pysgodfeydd (JFS), sy'n datgan eu cyd-bolisïau ar gyfer cyflawni'r amcanion (cymal 6). Ceir rhagor o fanylion am Gyd-ddatganiadau Pysgodfeydd ym Mhennod X.

58. Dywedodd Dr Bryce D Stewart nad oedd yn glir sut y bydd pob un o'r amcanion yn y Bil, yn cael eu cyflawni, pryd fyddant yn cael eu cyflawni, a sut y bydd llywodraeth y DU (a/neu'r gwledydd datganoledig) yn cael eu dal i gyfrif os nad yw hynny'n digwydd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd mai dim ond dyheadau lefel uchel yn hytrach n dyletswyddau yw'r amcanion yn y Bil.⁴¹

59. Dywedodd yr Athro Barnes y byddai'r amcanion yn cael eu cryfhau pe baent yn cael eu datgan o'r newydd fel dyletswyddau. Esboniodd y byddai hyn yn gwneud y canlynol:

“provide a potential mechanism for ensuring that decision-makers are held to account for the mismanagement of fisheries.”⁴²

60. Yn ôl WEL a Greener UK, mae perygl y gallai'r diffyg dyletswydd i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd danseilio nod holl lywodraethau'r DU i sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yng ngwir ystyr y gair, a thrwy hynny sicrhau stociau iach sy'n ffynnu, a hyder defnyddwyr bod bwyd môr y DU yn cael

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Richard Barnes

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Bryce Stewart

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 43, 16 Ionawr 2029

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Richard Barnes

ei gynhyrchu'n gynaliadwy. Roeddent yn galw am i Fil y DU gael ei ddiwygio yn hyn o beth.⁴³ Adleisiodd ClientEarth y farn hon.

Monitro cynnydd yn erbyn yr amcanion

61. Cyfeiriodd nifer o dystion at y diffyg darpariaeth ym Mil y DU ar gyfer monitro a goruchwyllo'r amcanion pysgodfeydd. Er enghraifft, dywedodd yr Athro Barnes:

“...the mechanism for ensuring that [the fisheries] objectives are achieved, to me, doesn't appear to be that strong. So, a point of contrast might be something like the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, where the Ministers are required to periodically report on progress towards various objectives through indicators. That's not there within this Bill.”⁴⁴

62. Galwodd WEL a Greener UK am ofyniad ar bob awdurdod cenedlaethol i gyhoeddi diweddariad blynyddol ar gynnydd yn erbyn amcanion i sicrhau atebolrwydd digonol”.⁴⁵ Mynegwyd barn debyg gan ClientEarth, a awgrymodd gylch adrodd tair blynedd, yn unol â'r gofyniad yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.⁴⁶

Tystiolaeth y Gweinidog

63. Dywedodd y Gweinidog fod yr amcanion pysgodfeydd “yn efelychu” amcanion y CFP yn Erthygl 2 o Reoliadau'r CFP “i bob pwrpas, a hynny mewn ffordd y gellir ei gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaethol y DU”.⁴⁷

64. Awgrymodd swyddog y Gweinidog, er nad oedd yr amcanion yn cyfeirio'n benodol at “safon deg o fyw i bysgotwyr a'u cymunedau arfordirol”, roedd disgwyl i hyn gael ei gwmpasu yn yr amcan cynaliadwyedd.⁴⁸

65. Eglurodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl i'r JFS gynnwys rhagor o fanylion ar sut y byddai'r dull rheoli ar lefel ecosystem o reoli pysgodfeydd yn cael ei ddatblygu.⁴⁹

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 16 Ionawr 2019

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

⁴⁶ [Cofnod y Trafodion, paragraff 34]

⁴⁷ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 24 Ionawr 2019

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 47, 24 Ionawr 2019

Ein barn

Mae'r amcanion pysgodfeydd ym Mil y DU yn adlewyrchu'n bennaf yr amcanion yn Erthygl 2 o Reoliadau'r CFP. Fodd bynnag, gellid disgrifio'r amcanion ym Mil y DU yn fwy priodol fel amcanion trosfwaol neu ddyheadau lefel uchel. Yn wahanol i Fil y DU, mae Rheoliadau'r CFP yn cynnwys amcanion manwl pellach ac, mewn rhai achosion, dargedau penodol.

Credwn fod yr amcanion pysgodfeydd ym Mil y DU yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, rydym yn siomedig gan nifer fach o hepgoriadau arwyddocaol, yn arbennig gofyniad i beidio â rhagori ar derfynau cynnyrch cynaliadwy mwyaf erbyn 2020. Rydym yn siomedig hefyd fod yr amcanion yn gwanhau'r pwyslais ar sicrhau safon deg o fyw ar gyfer pysgotwyr a'u cymunedau arfordirol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bysgodfeydd Cymru.

Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod absenoldeb dyletswydd ym Mil y DU i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd yn wendid sylweddol. Yn ddealladwy, mae rhanddeiliaid yn pryderu bod hyn yn gam yn ôl, a allai, ymysg pethau eraill, arwain at y perygl o wrthdroi cynnydd mewn safonau amgylcheddol ym mhysgodfeydd Cymru a'r amgylchedd morol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw'n briodol cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru mewn Bil pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol.

Mae absenoldeb dyletswydd ar awdurdodau pysgodfeydd y DU i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd yn cynyddu'r angen i'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd fod yn gadarn. Credwn y dylai'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd gynnwys cerrig milltir a thargedau i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion pysgodfeydd. Rydym yn dychwelyd at y materion hyn ym Mhennod 4.

Casgliad 7. Yn gyffredinol, rydym yn fodlon gyda'r amcanion pysgodfeydd, yn amodol ar ymrwymiad y bydd y Cyd-ddatganiadau Pysgodfeydd yn cynnwys cerrig milltir a, lle bo'n briodol, dargedau penodol ac uchelgeisiol y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd. Dylai'r rhain gael eu datblygu gan weinyddiaethau'r DU mewn cydweithrediad a dylent gynnwys gofyniad i beidio â mynd y tu hwnt i derfynau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf. Disgwylwn i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â hyn fel rhan o'i thrafodaethau parhaus y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.

Casgliad 8. O fewn 6 blynedd o basio Bil y DU, dylai gweinyddiaethau'r DU gynnal adolygiad ar y cyd o'r amcanion pysgodfeydd i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Disgwylwn i Lywodraeth Cymru roi hyn ar waith gyda gweinyddiaethau eraill y DU gyda'r nod o sicrhau bod trefniadau ar gyfer adolygu'r amcanion

wedi'u cynnwys ym Mil y DU. Os na ellir cytuno ar hyn, disgwyliwn i ymrwymiad i gynnal adolygiad gael ei gynnwys yn y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd.

Casgliad 9. Fel rhan o'i hymgyngoriad "*Brexit a'n Moroedd*", dylai Llywodraeth Cymru archwilio a yw'n briodol cynnwys dyletswydd ym Mil pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd.

4. Datganiadau pysgodfeydd

Mae Bil y DU yn ei gwneud yn ofynnol i weinyddiaethau'r DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gynhyrchu a chyhoeddi Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, a fydd yn nodi sut y byddant yn cyflawni'r amcanion pysgodfeydd.

66. Mae Cymal 2 i 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer "Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd" a "Datganiad Pysgodfeydd yr Ysgrifennydd Gwladol" (SSFS). Mae darpariaethau'r JFS yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau pysgodfeydd (h.y. Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig) fynd ati ar y cyd i lunio a chyhoeddi JFS cyn 1 Ionawr 2021.

67. Mae Cymal 2(1) yn darparu y bydd JFS yn nodi polisiâu'r awdurdodau polisi pysgodfeydd ar gyfer cyflawni'r amcanion pysgodfeydd, neu gyfrannu at eu cyflawni. Mae'r SSFS yn cwmpasu llawer o'r amcanion manylach yn Erthygl 2 o Reoliadau'r CFP a bydd yn cynnwys polisiâu'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r amcanion hyn. Dim ond i Loegr ac i'r DU yn achos materion sydd heb eu datganoli, y bydd yr amcanion hyn yn gymwys.

68. Roedd cymalau 3 i 5 yn amlinellu'r broses ar gyfer paratoi, diwygio ac adolygu JFS ac SSFS. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â pharatoi a chyhoeddi'r datganiadau hyn. Yn achos JFS, rhaid i'r awdurdodau pysgodfeydd, gan weithredu ar y cyd, baratoi a chyhoeddi JFS ddrafft. Rhaid i bob un o'r awdurdodau hyn gyflwyno drafft gerbron y ddeddfwrfa briodol ac ymateb i unrhyw benderfyniadau neu argymhellion a wneir. Yn achos SSFS, yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad ac ymgynghori â Senedd y DU ar ddrafft.

69. Mae Cymal 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cenedlaethol perthnasol⁵⁰ arfer eu swyddogaethau yn unol â'r polisiâu sydd wedi'u cynnwys mewn JFS, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Os yw awdurdodau'n gwyro o'r polisiâu hynny, rhaid iddynt ddatgan eu rhesymau. Gosodir gofynion cyfatebol ar yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Sefydliad Rheoli Morol mewn perthynas ag SSFS.

⁵⁰ Mae Cymal 6 yn nodi bod awdurdod cenedlaethol perthnasol yn golygu: yr Ysgrifennydd Gwladol, y Sefydliad Rheoli Morol, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru, neu Adran Gogledd Iwerddon

Tystiolaeth rhanddeiliaid

70. Cafwyd barn gymysg gan randdeiliaid ar y darpariaethau mewn perthynas â datganiadau pysgodfeydd. Roedd y WFA yn croesawu cyflwyno'r datganiadau hyn fel cyfrwng hyblyg ac addasadwy ar gyfer polisi pysgodfeydd⁵¹, a nododd NUTFA fod y JFS yn ymddangos fel ffordd synhwyrol iawn ymlaen⁵². Roedd rhanddeiliaid eraill, er eu bod yn cefnogi'r datganiadau pysgodfeydd mewn egwyddor, yn cwestiynu a oedd y darpariaethau, fel y'u drafftwyd, yn darparu mecanwaith priodol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd yn llwyddiannus. Fel y crybwyllwyd eisoes, galwodd sawl rhanddeiliad am ddyletswydd ar awdurdodau polisi pysgodfeydd i gyflawni'r amcanion.

71. Nododd yr Athro Barnes fod cynnwys y datganiad pysgodfeydd yn eithaf agored. Dywedodd fod y datganiadau pysgodfeydd yn chwarae rhan hanfodol o ran sefydlu'r fframwaith ar gyfer mesurau cyfreithiol mwy penodol i reoli pysgodfeydd ac y dylent fod yn destun craffu llawn a thryloyw. Er ei fod yn cydnabod y gweithdrefnau craffu a nodir yn Atodlen 1, awgrymodd y gellid gwella'r rhain trwy gynnwys rhestr o ymgylgoreion statudol.⁵³

72. Mynegodd ClientEarth, WEL a Greener UK bryder ynghylch gallu awdurdodau polisi pysgodfeydd i wyro oddi wrth bolisiau a gynhwysir mewn JFS. Nodwyd nad oedd cymal 6(1) yn darparu unrhyw fanylion ynghylch yr amgylchiadau lle gallai awdurdod wyro oddi wrth JFS. Dywedodd WEL a Greener UK fod yna risg sylweddol felly y bydd awdurdodau yn anwybyddu'r datganiad polisi, ac felly'r amcanion pysgodfeydd.⁵⁴

73. Yn yr un modd, tynnodd yr Athro Barnes sylw at y ffaith bod cymal 6(1) yn darparu eithriad eang o bosibl i'r gofynion i gydymffurfio â datganiad (ac amcanion pysgodfeydd) a galwodd am i'r trothwy ar gyfer eithriadau fod yn uwch. Roedd yn honni bod y gofyniad ar awdurdodau i ddatgan eu rhesymau dros wyro oddi wrth bolisiau yn hollbwysig, ond roedd yn credu y dylai'r rhesymau hyn gael eu cyhoeddi.⁵⁵

74. Tynnodd WEL a Greener UK sylw at y ffaith bod y gofyniad i arfer swyddogaethau yn unol â JFS (cymal 6(1)) wedi'i gyfyngu i weinyddiaethau pysgodfeydd. Felly, ni fyddai awdurdodau cyhoeddus eraill sy'n gwneud

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 16 Ionawr 2019

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Richard Barnes

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Richard Barnes

penderfyniadau ynghylch pysgodfeydd (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru) yn cael eu rhwymo gan y ddyletswydd hon.⁵⁶

Tystiolaeth y Gweinidog

75. Dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau ynghylch cynnwys y JFS, gan gynnwys cerrig milltir posibl, a threfniadau mesur a monitro, yn parhau. Dywedodd hefyd y byddai cynnwys terfynol y JFS yn cael “ei lywio gan waith craffu ar y Bil, ymgysylltiad â rhanddeiliaid, a chraffu ar y deddfwrfeydd perthnasol yn unol â darpariaethau terfynol y Ddeddf”.⁵⁷

76. Esboniodd swyddog y Gweinidog y rhagwelir y byddai'r JFS yn cynnwys dyraniad cyfleoedd pysgota ar draws y DU, a sut y bydd gweinyddiaethau'r DU yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf.⁵⁸

77. Esboniodd y Gweinidog y byddai'r JFS yn ffurfio “rhan allweddol” o'r Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd, a fyddai'n nodi amcanion cyffredin yr awdurdodau polisi pysgodfeydd. Wrth roi sylwadau pellach ar y Cytundeb, dywedodd:

“[Bydd hwn] yn cael ei ategu gan ystod o femoranda dealltwriaeth sy'n amlinellu sut y bydd yr awdurdodau polisi yn gweithio gyda'i gilydd. Byddant yn cael eu cefnogi gan fecanweithiau cyd-lywodraethu effeithiol a mecanweithiau addas ar gyfer datrys anghydfod.”⁵⁹

78. Pan holwyd y Gweinidog am y rhesymeg dros y dull a gymerwyd yn Atodlen 1, eglurodd “ni ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ar y cyfarwyddiadau [drafftio]”.⁶⁰

79. Pwysleisiodd y Gweinidog y byddai'n bwysig i'r JFS gael ei adolygu bob hyn a hyn ac i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad arno, ac roedd wedi ei fwydo i

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

⁵⁷ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 24 Ionawr 2019

⁵⁹ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

⁶⁰ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

mewn i Lywodraeth y DU.⁶¹ Awgrymodd i'r Pwyllgor y byddai cyfnod adrodd o dair blynedd yn rhesymol.⁶²

Ein barn

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn ganolog i'r fframwaith trosfwaol ar gyfer y polisi pysgodfeydd a nodir ym Mil y DU. Y JFS fydd y mecanwaith allweddol ar gyfer cyflawni'r amcanion pysgodfeydd hefyd.

O ystyried hyn, rydym yn siomedig gan y diffyg manylion ym Mil y DU ar gynnwys y JFS. Nodwn fod llywodraethau Cymru a'r DU yn parhau i drafod cynnwys y JFS, gan gynnwys cerrig milltir posibl, a threfniadau mesur a monitro. Fodd bynnag, mae'r diffyg eglurder ar ran mor bwysig o ddull gweithredu'r DU yn dilyn Brexit yn destun pryder.

Cyfeiriwn yn ôl at Gasgliad 7, a'r angen i'r JFS gynnwys cerrig milltir a, lle bo'n briodol, dargedau penodol ac uchelgeisiol, er mwyn eu defnyddio i fesur cynnydd.

Er y nodwn ddatganiad y Gweinidog y bydd y JFS yn "rhan allweddol" o'r Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd, mae diffyg eglurder am ddiben a chynnwys arfaethedig y Cytundeb hwn, yn cynnwys sut, pryd a chan bwy y bydd yn cael ei ddatblygu.

Mae Bil y DU yn amlinellu gweithdrefn glir ar gyfer datblygu'r JFS drafft a chraffu arno, sy'n cynnwys gofynion ymgynghori a chraffu. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud darpariaeth i sicrhau bod gweinyddiaethau'r DU yn cael eu dal i gyfrif am gyflawni eu polisiau a chyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Credwn fod hyn yn hepgoriad sylweddol.

Casgliad 10. Dylai Bil y DU gael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd adrodd i'r ddeddfwrfa berthnasol ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu polisiau ac o ran cyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Disgwylw'n i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill yn hyn o beth.

Os na ellir dod i gytundeb, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adrodd i'r Cynulliad bob tair blynedd yn dechrau ar y dyddiad y caiff y JFS cyntaf ei gyhoeddi. Dylai'r adroddiad hwn ddefnyddio'r polisiau yn y JFS fel pwynt cyfeirio

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 20, 24 Ionawr 2019

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 64, 24 Ionawr 2019

a dylai fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion pysgodfeydd ac amcanion perthnasol eraill, fel y rheini sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth Cymru.

Casgliad 11. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro diben a chynnwys arfaethedig y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd hyd yma. Dyma fydd y sail i sut y mae'r fframwaith pysgodfeydd yn gweithredu. Mae'n anodd i'r Cynulliad farnu pa mor briodol yw cydsyniad heb y wybodaeth hon. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion fel mater o frys. Dylai egluro pa gyfleoedd fydd ar gael i randdeiliaid lywio datblygiad y Cytundeb a sut y gall y Cynulliad graffu arno. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r Cytundeb cyn gynted â phosibl.

5. Mynediad i bysgodfeydd Prydain

Mae Bil y DU yn cynnwys darpariaethau i weinyddiaethau'r DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gyhoeddi trwyddedau i longau tramor a Phrydeinig.

80. Mae Cymal 7 yn dirymu Erthygl 5 o Reoliadau'r CFP, sy'n caniatáu mynediad cyfartal ar gyfer cychod pysgota'r UE i ddyfroedd yr UE. Yn hytrach, mae Bil y DU yn darparu bod cychod pysgota tramor yn cael eu gwahardd rhag dod i ddyfroedd y DU i bysgota oni bai eu bod yn meddu ar drwydded (cymalau 8 ac 11), neu at ddiben sydd wedi'i gydnabod gan gyfraith ryngwladol neu gan unrhyw gytundeb rhyngwladol, neu drefniant y mae'r DU yn rhan ohono.

81. Mae Cymal 11 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol greu ac yna diwygio eithriadau i'r gwaharddiad, yn amodol ar ganiatâd y gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r **Memorandwm Pwerau Dirprwyedig sy'n cyd-fynd â Bil y DU** yn darparu'r esboniad canlynol ar gyfer cynnwys y pŵer hwn:

“The Fisheries Administrations may need to introduce exceptions to the prohibition on unlicensed fishing by foreign vessels. This could be necessary to implement any agreement with the EU or other countries on the conditions for access to UK waters.”⁶³

82. Mae Cymal 12 yn rhoi pwerau i'r gweinyddiaethau datganoledig a'r Sefydliad Rheoli Morol roi trwyddedau i longau pysgota tramor mewn perthynas â'u hardal weinyddol berthnasol.

83. Mae Cymal 9 yn gwahardd pysgota gan gwch pysgota Prydeinig oni bai ei fod wedi'i drwyddedu. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau, y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu diwygio drwy reoliadau, gyda chydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig. Mae Cymal 10 yn rhoi pwerau i'r gweinyddiaethau datganoledig drwyddedu eu cychod eu hunain.

84. Mae Cymalau 14 i 17 yn darparu ar gyfer troseddau a chosbau am beidio â chydymffurfio mewn perthynas â thrwyddedau a mynediad. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â thrwyddedau, ac mae Atodlen 3 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol.

⁶³ <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0278/181025DelegatedPowerMemorandum.pdf>

Tystiolaeth rhanddeiliaid

Mynediad llongau tramor i ddyfroedd Prydain

85. Cymysg oedd barn rhanddeiliaid ar fynediad cychod pysgota tramor i ddyfroedd Prydain ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Yn ôl y WFA, roedd dirymu gofyniad y CFP i Aelod-wladwriaethau roi mynediad cyfartal i longau pysgota'r UE i'w dyfroedd yn rhagamod hanfodol er mwyn cyflawni bwriad datganedig y DU i weithredu fel Gwladwriaeth Arfordirol Annibynnol yn unol â chyfraith ryngwladol (UNCLOS).⁶⁴

86. Awgrymodd NUTFA fod y gofyniad CFP presennol, ymhlith pethau eraill, wedi arwain at ddirywiad pysgodfeydd pysgod ag esgyll yng Nghymru ac roedd yn cael effaith niweidiol ar y sector yng Nghymru. Dywedodd na ddylid caniatáu i longau pysgota tramor gael mynediad i ddyfroedd Prydain oherwydd bod angen i ni adfywio pysgodfeydd Cymru yn ein dyfroedd tiriogaethol ac, felly, ysgogi adfywiad fflyd pysgota Cymru mewn ystyr ehangach.

87. Nododd Dr Stewart y bydd penderfyniadau ar fynediad yn cael eu gwneud ar lefel uchel yn ôl pob tebyg, h.y. fel rhan o'r trafodaethau ar berthynas y DU gyda'r UE yn y dyfodol. Awgrymodd fod diffyg eglurder ynghylch a allai'r gweinyddiaethau datganoledig wedyn osod amodau trwydded, neu amodau ychwanegol, ar longau pysgota tramor mewn perthynas â'u hardal weinyddol eu hunain.⁶⁵

88. Dywedodd Dr Stewart y bydd cyfyngiadau ar fynediad llongau pysgota'r UE i ddyfroedd Prydain yn debygol o arwain at gyfyngiadau cyfatebol ar longau pysgota'r DU yn nyfroedd yr UE. Dywedodd y gallai hyn arwain at oblygiadau negyddol sylweddol i rai aelodau o fflyd pysgota'r DU, a bod angen ystyried ac ymchwilio i hyn ymhellach.⁶⁶

89. Mynegodd NUTFA bryder bod y pwerau i weinyddiaethau datganoledig roi trwyddedau [cymalau 10 a 12] yn ymddangos fel be baent yn rhoi rhwydd hant i weinyddiaethau datganoledig greu a dyrannu trwyddedau pysgota ychwanegol heb fod unrhyw reolaeth gyffredinol ar nifer y trwyddedau ar gyfer cychod pysgota o'r DU [ac o dramor]. Yn ôl NUTFA, gallai hyn fod yn beryglus ac yn asgwrn cynnen. Pwysleisiodd yr angen am ofyniad cyffredinol ar lywodraeth ganolog i reoli'r

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 16 Ionawr 2019

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Bryce Stewart

ddarpariaeth o drwyddedau ychwanegol ar gyfer mynediad i ddyfroedd pysgota yn y DU.⁶⁷

90. Nododd ClientEarth, WEL a Greener UK nad oedd unrhyw ddarpariaeth ym Mil y DU i sicrhau bod llongau tramor sy'n cael mynediad i ddyfroedd Prydain yn cydymffurfio â'r un safonau amgylcheddol â llongau Prydeinig. Credai WEL a Greener UK fod cydymffurfiaeth yn hanfodol i sicrhau chwarae teg i bawb a bod yr amgylchedd yn cael ei amddiffyn i lefel uchel. Roeddent yn galw am gynnwys gofyniad penodol ym Mil y DU i adlewyrchu hyn.⁶⁸

Trefniadau trwyddedu ar gyfer llongau Prydeinig

91. Ar hyn o bryd, mae gan gychod pysgota'r DU fynediad cyfartal i bysgodfeydd Prydain. Byddai'r hawl hon yn cael ei chadw o dan Fil y DU (yn amodol ar ddarpariaethau penodol). Awgrymodd NUTFA na fyddai pysgodfeydd Cymru yn elwa yn sgil hyn yn ymarferol oherwydd eu bod wedi'u cyfyngu gan ddyraniad cwota cyfyngedig Cymru.⁶⁹ Dywedodd:

“... you could have a situation—which, in fact, you have now, very often—where Welsh fishermen have to stand on the quay, unable to go to sea to catch fish, because they don't have the quotas through the failures of the concordat, and they can only watch vessels from other nations taking those fish, and that surely must be unfair.”⁷⁰

92. Trafodir cwotâu yn fanylach ym Mhennod 6.

Monitro a gorfodi

93. Mynegodd rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli sefydliadau amgylcheddol bryder ynghylch y diffyg pwyslais ym Mil y DU ar fonitro a gorfodi, sy'n elfen hanfodol o reoli pysgodfeydd yn effeithiol.⁷¹

94. Dywedodd WEL a Greener UK nad yw system orfodi'r DU yn cyflawni llawer o'r meini prawf a nodir yn y Rheoliad Rheoli a Rheoliad IUU a'i bod yn seiliedig ar achosion troseddol hir a drud. Roeddent yn galw ar Fil y DU i gryfhau'r mecanweithiau presennol. Er enghraifft, gofyniad i bob llong gael systemau monitro llongau, waeth beth fo'i maint, ac ar gyfer monitro electronig o bell gyda

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NUTFA

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 212, 16 Ionawr 2019

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 212, 16 Ionawr 2019

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

theledu cylch cyfyng ar gyfer pob llong fawr (dros ddeg metr) ac ar gyfer rhai cychod llai. Roeddent yn galw hefyd am system gosbi briodol i sicrhau bod darpariaethau'r Bil Pysgodfeydd yn cael eu gorfodi'n effeithiol.⁷²

Tystiolaeth y Gweinidog

95. Wrth gyfeirio at ddirymu Erthygl 17 o'r CFP a gwahardd cychod pysgota tramor rhag mynd i ddyfroedd y DU heb drwydded, dywedodd y Gweinidog:

“...that's always been a concern that's been raised with me, that any foreign fishing vessel that comes into our waters doesn't have to comply with our unique Welsh legislation, so that will obviously change. We'll be able to extend our legislation to foreign vessels, so we'll have much more of a level playing field, which we certainly haven't had before.”⁷³

96. Fodd bynnag, dywedodd hefyd y bydd yn rhaid i longau pysgota tramor gael awdurdodiad pysgota blynyddol dilys y DU i bysgota yn ein dyfroedd. Eglurodd ei swyddog fod gwaith yn cael ei wneud ar draws gweinyddiaethau'r DU i ddatblygu un awdurdod cyhoeddi sy'n ymwneud â thrwyddedu llongau tramor.

97. O ran y pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi trwyddedau i longau pysgota tramor, eglurodd y Gweinidog y byddai hyn yn sicrhau bod amodau ynghlwm wrth drwyddedau i gyd-fynd â deddfwriaeth Cymru.⁷⁴

98. Cydnabu'r Gweinidog fod pryderon ynglŷn â pharhad mynediad cyfartal i bysgodfeydd Prydain ar gyfer cychod pysgota yn y DU, ond dywedodd:

“I think what is really important is to ensure we have the appropriate controls in place for each specific fishery and marine environment rather than looking where the vessel comes from...it's really important that we get that balance right.”⁷⁵

99. Esboniodd swyddog y Gweinidog y byddai Rheoliadau'r UE mewn perthynas â monitro a gorfodi yn cael eu cadw o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018.⁷⁶ Dywedodd y Gweinidog fod trefn monitro a gorfodi bresennol yr UE yn un safon aur, ac nid oedd hi'n credu y byddai angen gwelliannau wrth i'r DU adael yr UE,

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 102, 24 Ionawr 2019

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 106, 24 Ionawr 2019

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, 112, 24 Ionawr 2019

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 24 Ionawr 2019

neu yng nghyd-destun y darpariaethau o fewn Bil y DU.⁷⁷ Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud buddsoddiad sylweddol o tua £7 miliwn mewn llongau gorfodi yng Nghymru yn ddiweddar.⁷⁸

100. Esboniodd swyddog y Gweinidog fod gan Weinidogion Cymru bwerau ar hyn o bryd mewn perthynas â'i gwneud hi'n ofynnol i gael teledu cylch cyfyng ar longau pysgota, trwy ddefnyddio amodau trwydded. Eglurodd:

“We could always apply it to UK vessels in our waters using licence conditions, but it was never a level playing field, because European vessels didn't have to comply with that. Now, through the UK Fisheries Bill, they would. Licence conditions would apply to them equally.”⁷⁹

Ein barn

Mae Bil y DU yn dileu hawliau llongau pysgota'r UE i bysgota yn nyfroedd y DU, a bydd unrhyw drefniadau mynediad yn y dyfodol yn destun trafod. Mae'n parhau i fod yn destun cryn anghydfod, gyda gwahaniaethau amlwg yn safbwyntiau'r UE a'r DU. Mae'n bosib y bydd trefniadau mynediad rhwng y naill a'r llall yn rhan o gytundeb masnach yn y dyfodol. Trafodir hyn yn fanylach ym Mhennod 8.

Mae ein hadroddiad, *Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru*, yn pwysleisio pwysigrwydd mynediad parhaus i ddyfroedd yr UE i sicrhau hyfywedd pysgodfeydd Cymru, o leiaf yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae'n hanfodol bod llywodraethau'r DU a Chymru yn sicrhau bod anghenion penodol pysgodfeydd Cymru yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau ar gytundebau ar ôl Brexit.

Mae'r darpariaethau ym Mil y DU sy'n ymwneud â mynediad a thrwyddedu yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd mynediad i ddyfroedd yn destun cytundeb yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE. Nid yw'n glir a fydd cytundeb o'r fath yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio amodau trwydded i gefnogi ei pholisïau, megis sicrhau safonau amgylcheddol uchel ym mharth Cymru.

Er bod Bil y DU yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru drwyddedu llongau pysgota tramor, mae'n ymddangos mai'r dull a ffefrir yw un drwydded sy'n rhoi mynediad i ddyfroedd y DU. Y Sefydliad Rheoli Morol fydd yn rhoi'r drwydded. Os mai dyma'r dull y bwriedir ei ddefnyddio, byddai wedi bod yn fwy tryloyw ei

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 243, 24 Ionawr 2019

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 111-113, 24 Ionawr 2019

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 203, 24 Ionawr 2019

gynnwys ym Mil y DU. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi hysbysu'r Cynulliad yn gynharach fod hyn yn cael ei ystyried. Mae diffyg eglurder ynghylch sut y bydd y trefniant hwn yn gweithredu yng nghyd-destun y darpariaethau trwyddedu a'r pwerau sy'n cael eu rhoi. Ymhellach, nid yw'n glir a fydd dull un drwydded yn cynnig digon o hyblygrwydd i gynnwys gofynion sy'n berthnasol i barth Cymru yn unig.

Nodwn fod Bil y DU yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r darpariaethau trwyddedu i greu, ychwanegu, dileu neu amrywio eithriadau i wahardd cychod pysgota tramor. Unwaith eto, mae diffyg eglurder ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar y pwerau i Weinidogion Cymru. At hynny, er bod newidiadau i eithriadau yn gofyn am ganiatâd y gweinyddiaethau datganoledig, nid yw'n glir sut y byddai unrhyw anghydfodau yn cael eu datrys.

Casgliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod buddiannau pysgodfeydd Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn mewn trafodaethau ynghylch mynediad i farchnadoedd a chytundebau masnach gyda'r UE yn y dyfodol.

Casgliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion ar y cynnig i'r Sefydliad Rheoli Morol gyhoeddi trwydded unigol i longau pysgota tramor. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y byddai hyn yn effeithio ar ei phŵer i roi trwyddedau, yn arbennig, gallu Gweinidogion Cymru i osod amodau trwydded penodol ar gychod pysgota tramor mewn perthynas â pharth Cymru. Er enghraifft, mynnu bod monitro CCTV ar fwrdd llongau.

Casgliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y mae'n bwriadu defnyddio amodau trwyddedu ar gyfer llongau'r DU i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau amgylcheddol ym mharth Cymru. Yn arbennig, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd amodau trwydded yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â llygredd plastig a materion cysylltiedig eraill.

Casgliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amgylchiadau lle mae'n rhagweld y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio'r pwerau yng nghymalau 9 ac 11, i newid yr eithriadau i wahardd llongau Prydeinig neu dramor rhag pysgota yn nyfroedd Prydain heb drwydded. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd unrhyw anghydfod posibl ynghylch arfer y pwerau hyn yn cael eu datrys. Yn y man lleiaf, rydym yn disgwyl i fecanwaith datrys anghydfod gael ei gynnwys yn y Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd.

6. Cyfleoedd pysgota a rhannu cwota

Mae gadael y CFP yn gyfle unigryw i ailystyried y ffordd y mae cyfleoedd pysgota, a elwir yn gyffredin yn gwota, yn cael eu dosbarthu yn y DU.

Cwotâu a chyfanswm y ddalfa a ganiateir

101. Amcanion penodol y CFP yw sicrhau bod pysgota yn gynaliadwy yn amgylcheddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol. O dan y CFP, rheolir y rhan fwyaf o stoc pysgod gan ddefnyddio TAC a gytunir yn dilyn cyngor gwyddonol a ddarperir gan y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Archwilio'r Môr. Cytunir ar TAC ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn flynyddol yng nghyfarfod Cyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd yr UE (a elwir yn "Cyngor Rhagfyr").

102. Ar ôl cytuno arnynt, caiff TAC eu dosbarthu i Aelod-wladwriaethau. Mae'r mecanwaith dosbarthu hwn yn seiliedig ar yr egwyddor o "sefydlogrwydd cymharol" ac yn rhannu TAC yn unol ag allwedd ddyrannu yn seiliedig ar gofnodion dal hanesyddol Aelod-wladwriaethau yn ystod y cyfnod cyfeirio 1973 i 1978.

Rhannu cyfran cwota'r DU

103. Tan 2012, roedd Llywodraeth y DU yn gyfrifol am osod cwotâu unigol ar gyfer llongau pysgota a oedd yn dal trwydded pysgota ar lefel y DU. Ers 2012, mae gweinyddiaethau datganoledig wedi bod yn gyfrifol am dddosbarthu cwota i'w fflydoedd priodol, yn unol â'r **Concordat Pysgodfeydd**.

104. Mae'r Concordat Pysgodfeydd yn nodi sut y mae dyraniad cwota'r DU wedi'i rannu rhwng y pedair gweinyddiaeth ac yn darparu egwyddorion cyffredinol ar reoli ymdrechion a thrwyddedu. Dyma dair elfen allweddol y Concordat:

- dyraniad a dosbarthiad cwota - rhennir cwota ar draws y pedair gweinyddiaeth gan ddefnyddio Dyraniadau Cwota Sefydlog (FQAs), yn seiliedig ar laniadau hanesyddol y llong yn ystod cyfnod cyfeirio sefydlog (1994-1996 ar gyfer y rhan fwyaf o stociau). Ar gyfer llongau o dan 10 metr, mae dyraniadau yn seiliedig ar nifer y llongau;
- trwyddedu a chenedligrwydd llongau – caiff cenedligrwydd llong ei bennu gan y porthladd lle y cafodd ei chofrestru; ac

- amodau trwydded yn ymwneud â chyswllt economaidd - anghenion arbennig cymunedau arfordirol sydd â dibyniaeth uchel ar bysgota.

Pysgodfeydd nad ydynt yn rhan o gwota: pysgod cregyn

105. Mae pysgod cregyn yn rhan bwysig o bysgodfeydd y DU, yn enwedig pysgodfeydd yng Nghymru, gyda gwerth uchaf y glaniadau. Mae'r rhan fwyaf o'r ddalfa pysgod cregyn yn cael ei hallforio. Nid yw mwyafrif y pysgod cregyn sy'n cael eu glanio yn y DU yn dod o dan y system cwota.

106. Mae trwyddedu pysgod cregyn y tu allan i'r CFP a chaiff ei reoli ar lefel ranbarthol ac felly ni fydd yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan y DU yn gadael yr UE.

107. Mae 92% o fflyd Cymru yn cynnwys cychod bach, o dan 10m o hyd, sy'n dal pysgod cregyn a rhywogaethau pysgod nad ydynt yn rhan o gwota, yn bennaf.

Darpariaethau ym Mil y DU

108. Mae cymalau 18 a 19 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â chyfleoedd pysgota (neu gwota) ar gyfer cychod pysgota Prydeinig. Mae cymal 18 yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol bennu cyfanswm y cyfleoedd pysgota (o ran y nifer mwyaf o bysgod môr (cwota dalfa) a'r nifer mwyaf o ddyddiau y gall cychod eu treulio ar y môr (cwota ymdrech). Dim ond at ddiben cydymffurfio â rhwymedigaeth rhyngwladol y DU yn hyn o beth y gellir gwneud penderfyniad.

109. Mae'r LCM Atodol yn ymhelaethu ar bryderon Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymal 18. Barn Llywodraeth y DU yw nad yw cymal 18 yn gofyn am ganiatâd deddfwriaethol gan y Cynulliad ar y sail ei fod yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n swyddogaethau a gadwyd yn ôl. Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn y farn hon. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol osod cyfanswm cyffredinol y cyfleoedd pysgota sy'n deillio o drafodaethau, dywed:

“...nid yw gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli yn fater sydd wedi ei gadw'n ôl, ac mae o fewn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cadarnhawyd hynny gan y Goruchaf Lys yn *Reference of the UK Withdrawal from the EU (Legal Continuity) (Scotland) Bill* [2018] UKSC 64. Gan fod y term 'International Obligations' (a ddefnyddir yn y Bil) yn eang ac oherwydd y gallai fod yn cwmpasu gweithredu cytundeb o'r

fath, mae'r Cymal yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol ac felly, mae angen cydsyniad y Cynulliad.”⁸⁰

110. Mae cymal 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) cyn gwneud neu ddileu penderfyniad o dan gymal 18.

111. Mae cymal 20 yn diddymu Erthygl 16 o Reoliadau'r CFP. Mae Erthygl 16 yn darparu i'r Cyngor Ewropeaidd ddsbarthu cyfleoedd pysgota i Aelod-wladwriaethau o dan yr egwyddor o sefydlogrwydd cymharol.

112. Mae cymal 20 hefyd yn diwygio Erthygl 17 i'w wneud yn weithredol yn neddf gwlad y DU. Mae Erthygl 17 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddsbarthu cyfleoedd pysgota gartref yn unol â meini prawf tryloyw a gwrthrychol gan gynnwys rhai o natur amgylcheddol, gymdeithasol ac economaidd. Effaith y gwelliannau hyn yw gosod dyletswyddau ar yr Ysgrifennydd Gwladol a'r MMO mewn perthynas â dosbarthu cyfleoedd pysgota.

113. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud nad yw cymal 20 yn cymhwyso Erthygl 17 i'r Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill, ar eu cais.⁸¹

114. Mae cymal 21 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cenedlaethol perthnasol y DU i arfer eu swyddogaethau pysgodfeydd er mwyn sicrhau na eir y tu hwnt i gyfleoedd pysgota'r DU.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

Rhannu cwota'r DU

115. Cafwyd cytundeb eang ymhlith rhanddeiliaid fod y dull presennol o ddyrannu cwota, fel y'i nodwyd yn y Concordat Pysgodfeydd (y Concordat), yn annheg, gyda Chymru yn derbyn dim ond 1% o gyfanswm dyraniad y DU. Holodd mwyafrif y rhanddeiliaid pam nad oedd Bil y DU wedi cael ei ddefnyddio yn gyfle i fynd i'r afael â'r mater hwn.

116. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn galw am newidiadau i'r dull o ddyrannu cwota i sicrhau bod Cymru yn derbyn cyfran decach o gwota. Nododd yr Athro Barnes fod Papur Gwyn Llywodraeth y DU yn addo symud tuag at system ddyraniadau decach, ond nad oedd unrhyw dystiolaeth o hyn ym Mil y DU.⁸²

⁸⁰ www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12027/lcm-ld12027-w.pdf

⁸¹ <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0278/en/18278en01.htm>

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Richard Barnes

117. Nododd Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor Cyfyngedig ei bod yn ymddangos nad yw Bil y DU yn dangos y bydd natur sylfaenol dosbarthiad cyfleoedd i gael mynediad i stociau a reolir gan gwota/ymdrech yn newid.⁸³

118. Awgrymodd Griffin Carpenter fod dyrannu cwota yn seiliedig ar ddalfa hanesyddol yn golygu gwobrwyo gor-bysgota i bob pwrpas, gan fod y rheiny a oedd yn cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd yn cael eu gwobrwyo â'r cyfrannau mwyaf o'r cwota.⁸⁴ Esboniodd nad yw'r dyraniad cwota yn adlewyrchu cyfanswm y pysgod a ddelir yn nyfroedd Cymru, gan nad yw'n cynnwys dalfa llongau o dan 10m, sef mwyafrif fflyd Cymru.⁸⁵ Dywedodd yr Athro Barnes fod defnyddio cofnodion dal hanesyddol fel sail ar gyfer dyrannu cwota yn broblem fawr ac, yn hollbwysig, nad yw'n caniatáu i'r diwydiant dyfu a datblygu.⁸⁶

119. Awgrymodd yr Athro Barnes y gellid defnyddio gwahanol feini prawf i sicrhau dyraniad tecach, er enghraifft, strwythur ac amrywiaeth y fflyd pysgota, ac anghenion cymunedau pysgota arfordirol.⁸⁷

120. Penderfynodd NUTFA fod y dull presennol o ddyrannu cwota yn annheg ac yn wrthgynhyrchiol mewn termau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau arfordirol. Roedd yn feirniadol iawn o benderfyniad Llywodraeth Cymru i ymuno â'r Concordat Pysgodfeydd.⁸⁸

Cyfleoedd pysgota newydd sy'n deillio o Brexit

121. Roedd cefnogaeth eang ar gyfer dull amgen o ddyrannu cwota i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw gwota ychwanegol sy'n deillio o Brexit. Mynegodd rhanddeiliaid bryder na fyddai pysgodfeydd Cymru, heb hynny, yn well o ganlyniad i Brexit. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid na fyddai fflyd pysgota Cymru yn gallu manteisio ar unrhyw gwota ychwanegol ar unwaith oherwydd diffyg capasiti. Byddai arni angen amser a chymorth gan Lywodraeth Cymru i ymaddasu a datblygu. Rhoddir sylw manylach i gymorth ariannol ym Mhennod 7.

122. Cyfeiriodd Griffin Carpenter at ei adroddiad ar gyfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, *Goblygiadau Brexit i Gyfleoedd Pysgota yng Nghymru*, a

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor Cyfyngedig

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 16 Ionawr 2019

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 16 Ionawr 2019

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 82, 16 Ionawr 2019

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Richard Barnes

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NUTFA

nododd fod fflyd Cymru yn gofyn am drefniant gwahanol o ran rhannu cwota yn y DU i gael ei chyfran deg o gwota ychwanegol”.⁸⁹

123. Holodd WFA ar ba sail y byddai unrhyw gwota ychwanegol, sy'n deillio o unrhyw addasiadau i gwota'r DU yn dilyn Brexit, yn cael ei ddyrannu ar draws y DU, a sut y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio dylanwadu ar hyn i sicrhau dyraniad teg i Gymru.⁹⁰

124. Galwodd Greener UK am i unrhyw gwota ychwanegol gael ei ddisbarthu mewn ffordd sy'n deg ac sy'n ystyried gofynion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Awgrymodd Dr Stewart y gellid targedu cwota ychwanegol tuag at longau ar raddfa fach, sy'n:

“...make up the majority of the UK fishing fleet (and dominate the Welsh fishing fleet in particular), but currently hold less than 5% of the UK quota. These vessels generally have lower environmental impacts, but are more closely connected to local communities and provide more jobs. Making these changes would directly support one of the Fisheries Bill's primary objectives – to manage fisheries in a way that is environmentally sustainable while ensuring economic, social and employment benefits.”⁹¹

Dulliau ar gyfer dyrannu cwota

125. Mynegodd rhai rhanddeiliaid siom bod cymal 20, sy'n newid Erthygl 17 o'r CFP, wedi methu â mynd i'r afael ag annigonolrwydd presennol y system ar gyfer dyrannu cwota.

126. Esboniodd Griffin Carpenter, er bod Erthygl 17 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddyrannu cwota ar sail meini prawf tryloyw a gwrthrychol, nad oes gofyniad dilynol i ddefnyddio meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. O'r herwydd, parhaodd y rhan fwyaf o Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, i ddefnyddio cofnodion dal hanesyddol fel sail ar gyfer dyrannu cwota. Dywedodd:

⁸⁹ www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/goblygiadau-brexit-i-gyfleoedd-pysgota-yng-nghymru/

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 216, 16 Ionawr 2019

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Bryce Stewart

“By merely transposing the existing wording of Article 17 there is little doubt that this text will continue to have no bearing on the actual functioning of UK fisheries management.”⁹²

127. Galwodd am newid Bil y DU i gynnwys mandad bod meini prawf amgylcheddol a chymdeithasol yn cael eu defnyddio ym mhob gweinyddiaeth pysgodfeydd ar gyfer dyrannu cyfleoedd yn y dyfodol (yn rhai presennol a rhai newydd), tra bod y meini prawf penodol yn y meysydd hyn yn parhau i fod yn gymhwysedd datganoledig.⁹³

128. Mynegodd ClientEarth, WEL a Greener UK farn debyg. Dywedodd WEL a Greener UK:

“Given the often small-scale, coastal nature of Welsh fisheries, we believe a move to allocation of quota according to environmental and social criteria would further Welsh Government’s contributions under the Wellbeing of Future Generations Act 2015 and benefit Welsh coastal communities.”⁹⁴

Tystiolaeth y Gweinidog

129. Ailadroddodd y Gweinidog farn Llywodraeth Cymru bod cymal 18 yn rhwystro materion datganoledig ac felly bod angen caniatâd deddfwriaethol gan y Cynulliad.⁹⁵ Eglurodd y Gweinidog:

“...our concerns really centre on the very broad way that this power has been written. So, the way it’s drafted at the moment...[the Secretary of State] could set our quota for scallops in Cardigan Bay. He could set the number of days it’s open, for instance—that is completely wrong—if it was linked to an international agreement. So, an absolute red line for me.”⁹⁶

130. Er bod y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU hyd yn hyn yn galonogol i’r Gweinidog, eglurodd eu bod yn parhau.⁹⁷ Mynnodd, oni bai y rhoddir sylw i bryderon mewn perthynas â chymal 18, na fyddai’n gallu argymhell bod y

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, New Economics Foundation

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, New Economics Foundation

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 138, 24 Ionawr 2019

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 139, 24 Ionawr 2019

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 139, 24 Ionawr 2019

Cynulliad yn cydsynio i Fil y DU.⁹⁸ Esboniodd swyddog y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ceisio cytundeb rhynglywodraethol ffurfiol ar weithredu cymal 18.⁹⁹

131. Wrth gyfeirio at gyfran cwota Cymru, dywedodd y Gweinidog:

“The most important things is that Welsh fishermen receive their fair share of fishing opportunities, and I don’t think that’s been the case, and certainly we’ve had reports that clearly demonstrate that that’s not the case...we need to change the way fishing opportunities are allocated within the UK. That’s absolutely fundamental, otherwise there will be no re-balance.”¹⁰⁰

132. Nid oedd y Gweinidog o’r farn ei bod yn angenrheidiol cynnwys darpariaeth ym Mil y DU i fynd i’r afael â’r anghydbwysedd presennol yn y dyraniad cwota. Awgrymodd y gellid cyflawni hyn trwy wneud yn siŵr bod gennym y [rheolau cwota] iawn [ar gyfer] rheoli pysgodfeydd y DU] wrth symud ymlaen.¹⁰¹

133. Esboniodd y Gweinidog fod y sail ar gyfer dosbarthu cyfleoedd pysgota yng Nghymru ar hyn o bryd wedi’i nodi yn rheolau rheoli cwota pysgodfeydd y DU. Eglurodd hefyd y byddai dyraniad yn y dyfodol yn amodol ar ymgynghoriad wrth i ni weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu’r polisi pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol y cyfeirir ato yn *Ffyniant i Bawb*.¹⁰²

134. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai angen adolygu’r Concordat Pysgodfeydd yng ngoleuni ymadael â’r UE a chreu fframwaith pysgodfeydd.¹⁰³

135. Eglurodd y Gweinidog y gwnaed penderfyniad na fyddai cymal 20 yn berthnasol i Gymru yn dilyn pryderon ynghylch pa mor briodol y byddai i Fil y DU sy’n pennu meini prawf dyrannu ar gyfer penderfyniadau datganoledig a’r risg o orgyffwrdd â’r ddeddfwriaeth bresennol. O ganlyniad, bydd angen i

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 143, 24 Ionawr 2019

⁹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 146, 24 Ionawr 2019

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 171, 24 Ionawr 2019

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 178, 24 Ionawr 2019

¹⁰² Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

¹⁰³ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

benderfyniadau Gweinidogion Cymru yn y maes hwn gael eu llywio gan ddeddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.¹⁰⁴

136. Fodd bynnag, esboniodd swyddog y Gweinidog wedyn fod y penderfyniad i beidio â chymhwyso cymal 20 mewn perthynas â Chymru fel pe bai wedi cyflwyno rhywfaint o ddryswch, oherwydd bod arnom angen ffordd gyson o weinyddu dosbarthiad cwota ar lefel uchel. O'r herwydd, roedd Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio cymal 20 fel y byddai Erthygl 17 (fel y'i diwygiwyd gan Fil y DU) yn berthnasol i Gymru.¹⁰⁵

Ein barn

Dyrannu cwota'r DU

Bydd gadael y CFP yn rhoi cyfle unigryw i'r DU a Chymru ail-ystyried sut y maent yn ymdrin â pholisi pysgodfeydd. Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn, mae'n hollbwysig mynd i'r afael â dyraniad cwota cyfredol Cymru, sy'n sylfaenol annheg yn ein barn ni.

Rydym yn siomedig iawn fod Llywodraeth y DU wedi penderfynu na fydd y mater hwn yn cael sylw wrth i'r DU adael yr UE. Oni bai bod y mater hwn yn cael ei ailystyried, prin iawn fydd y manteision i bysgodfeydd Cymru yn sgil Brexit.

Er ein bod yn cydnabod y bwriad i adolygu'r Concordat Pysgodfeydd yng ngoleuni Bil y DU, nid ydym yn credu bod hyn yn mynd yn ddigon pell.

Nid yw Bil y DU yn ailfframio'r ffordd y mae cwota'n cael ei ddyrannu i'r gwledydd sy'n rhan o'r DU: Credwn y dylid diwygio'r Bil i sicrhau bod cwota'n cael ei ddyrannu'n deg ar sail meini prawf clir, ac mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn well â'r amcanion pysgodfeydd. Credwn y dylid rhoi ystyriaeth i ddiwygio Erthygl 17 yn hyn o beth.

Dulliau ar gyfer dyrannu cwota i bysgodfeydd Cymru

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i geisio diwygiad i Fil y DU i sicrhau bod cymal 20 yn gymwys o ran Cymru. Fel y nodwyd eisoes, credwn fod angen diwygiadau ychwanegol i Erthygl 17 er mwyn sicrhau system decach o

¹⁰⁴ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 190, 24 Ionawr 2019

ddyrannu cwota. Mae hyn yn llawn mor berthnasol i ddyrannu cwota i bysgodfeydd Cymru.

Cyfleoedd pysgota newydd sy'n deillio o Brexit

Mae diffyg eglurder ynghylch sut y bydd unrhyw gwota ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i Brexit yn cael ei ddyrannu ar draws y gwledydd sy'n rhan o'r DU. Roedd Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar gynigion ar gyfer Bil y DU yn datgan yn glir ei bwriad i drafod gyda'r gweinyddiaethau datganoledig y mater o ddyrannu cwota ychwanegol ar sail wahanol. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r trafodaethau hyn wedi digwydd eto. Yn ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad blaenorol, roedd yn cydnabod yr angen i gwota ychwanegol gael ei ddefnyddio i ailfantoli unrhyw anghyfartaledd hanesyddol yn segmentau'r fflydiau. Mae diffyg eglurder ynghylch yr hyn y bydd hyn yn ei olygu i bysgodfeydd Cymru yn ymarferol.

Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 18

Rydym yn rhannu pryder Llywodraeth Cymru ynghylch hyd a lled pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota, a allai, fel y'i drafftwyd, fod yn gymwys i stociau sydd yn gyfan gwbl o fewn dyfroedd un o'r gweinyddiaethau datganoledig.

Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud y gellid ymdrin â'r pryderon mewn perthynas â chymal 18 drwy gytundeb rhynglywodraethol.

Mynegodd y Pwyllgor hwn bryder mewn perthynas â darpariaethau cyffelyb ym Mil Amaethyddiaeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrthi'n cwblhau cytundeb mewn perthynas â'r darpariaethau perthnasol. Mae'r Pwyllgor wedi gweld y cytundeb drafft ac nid yw'n argyhoeddedig ei fod yn ddigon trylwyr i ddiogelu buddiannau Cymru. Os defnyddir dull tebyg ar gyfer y darpariaethau yn y Bil y DU hwn, ni fyddwn yn fodlon.

Credwn mai'r ffordd fwyaf priodol i fynd i'r afael â phryderon mewn perthynas â chymal 18 yw drwy ddiwygio Bil y DU.

Yn olaf, nid ydym yn amau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o gwota ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hyn. O gofio y bydd cynyddu cyfran Cymru o'r cwota yn ganolog i dwf y diwydiant ar ôl Brexit, ni all Llywodraeth Cymru fforddio orffwys ar ei rhwyfau. Disgwylwch i Lywodraeth

Cymru gymryd camau pendant ac amserol i symud y mater hwn yn ei flaen gyda Llywodraeth y DU.

Casgliad 16. Mae Bil y DU yn gyfle a gollwyd i ailfantoli'r annhegwch sylfaenol wrth ddyrannu cwota'r DU. Os nad yw hyn yn cael ei ddatrys, prin iawn fydd y manteision i bysgodfeydd Cymru yn sgil Brexit.

Casgliad 17. Awgrymwn y canlynol fel dull teg a chynaliadwy o ddyrannu cwota'r DU yn y dyfodol:

Yn gyntaf, dylai Erthygl 17 y CFP (sy'n cael ei ddiwygio gan Fil y DU) gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gan randdeiliaid. Yn arbennig, bod gormod o bwyslais ar y ddalfa hanesyddol wrth ddyrannu cwota ar draul meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Yn ail, dylai'r Concordat Pysgodfeydd gael ei adolygu i adlewyrchu pwyslais cynyddol ar feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddyrannu cwota i'r gwledydd sy'n rhan o'r DU. Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio'n llawn ar unrhyw adolygiad o'r Concordat Pysgodfeydd a gynhelir yn y dyfodol i sicrhau cynnydd yn y cwota a ddyrennir i Gymru.

Disgwylwn i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â gweinyddiaethau'r DU i'r perwyl hwn.

Casgliad 18. Dylid dyrannu unrhyw gwota newydd sy'n deillio o Brexit yn unol â meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd yng nghyfran Cymru o'r cwota.

Casgliad 19. Rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch hyd a lled pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â phenderfynu ar gyfleoedd pysgota. Nodwn fod hwn yn llinell goch i'r Gweinidog. Credwn mai'r ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â'r mater hwn yw trwy ddiwygio Bil y DU.

Casgliad 20. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon, hyd yma, i sicrhau cyfran deg o'r dyraniad cwota ar gyfer pysgodfeydd Cymru. Cyfyngodd Concordat Pysgodfeydd 2012 ar dwf y sector a rhoi pysgodfeydd Cymru dan anfantais ddifrifol. Wrth i'r DU adael yr UE, credwn fod rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy. Disgwylwn i'r Gweinidog ddarparu tystiolaeth glir o'r camau mae'n eu cymryd i sicrhau gwelliannau yng nghyfran Cymru o'r cwota.

7. Pwerau cymorth ariannol a chyllid yn y dyfodol

Mae Bil y DU yn cynnwys darpariaethau newydd ar gyfer dyrannu cymorth ariannol ar ôl Brexit, ond mae diffyg eglurder ynghylch cyllid yn y dyfodol.

137. Daw cyllid ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd yn yr UE o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Dyrannwyd £190 miliwn i'r DU o'r EMFF yn ystod 2014-2020, cyllid a gafodd ei rannu rhwng y pedair gwlad. Cyfran Cymru o'r EMFF yw tua £15 miliwn.

138. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod wedi ymrwymo £37.2 miliwn o gyllid ychwanegol i roi hwb i ddiwydiant pysgota'r DU yn ystod cyfnod sefydlu Brexit hyd at ddiwedd Rhagfyr 2020. Byddai £2.4 miliwn o'r swm hwn ar gael i Gymru, ar ben y swm o'r EMFF sy'n bodoli ar hyn o bryd.

139. Ar yr un pryd, cyhoeddodd y DU hefyd:

“[it] will put in place new, domestic, long-term arrangements to support the UK's fishing industry from 2021, through the creation of four new schemes comparable to EMFF to deliver funding for each nation of the UK. The Devolved Administrations will lead their own schemes and details will be agreed at the 2019 Spending Review.”¹⁰⁶

140. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil y DU,¹⁰⁷ pwrpas y darpariaethau cymorth ariannol yw caniatáu sefydlu cynllun grant i gymryd lle cyllid yr EMFF ar ôl Brexit.

141. Mae Cymal 28 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaethau ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol o'r fath. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 4, sy'n cynnwys pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, parth Cymru, neu gychod pysgota o Gymru.

142. Rhaid i gynlluniau cymorth ariannol gael eu sefydlu drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, a bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

¹⁰⁶ https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0278/Xerox%20Scan_10122018171049.pdf

¹⁰⁷ <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0278/en/18278en01.htm>

Gellir defnyddio'r cynlluniau i roi cymorth ariannol i unrhyw berson at ddibenion a bennir ym mharagraff 1(1) o Atodlen 4, gan gynnwys gwarchod, gwella neu adfer yr amgylchedd morol a dyfrol, a hyrwyddo neu ddatblygu gweithgareddau dyframaeth masnachol, gweithgareddau pysgota masnachol a physgota hamdden.

143. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn dweud “Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i Gymru o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn”.¹⁰⁸ Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU, yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil y DU, yn dweud y bydd pedair eitem o wariant newydd yn codi o ganlyniad i'r Bil. O'r rhain, mae dwy yn berthnasol i Gymru:

- Costau gweinyddol sefydlu cynllun i drwyddedu llongau pysgota tramor; a
- Darparu cymorth ariannol trwy gynlluniau ariannu yn y dyfodol a fydd yn disodli'r EMFF.¹⁰⁹

Tystiolaeth rhanddeiliaid

Disodli'r EMFF

144. Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r pwerau cymorth ariannol ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd barn gymysg ynghylch a oedd y dibenion y gellid rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer yn ddigon eang i gefnogi datblygiad pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Dywedodd yr Athro Barnes:

“[The power] seems to be drawn in very wide terms, so there's very little associated with fishing that couldn't potentially fall within the remit of the Welsh Government in terms of providing financial support there.”¹¹⁰

145. Mynegodd y WFA a CamNesa Consultancy farn wahanol ac awgrymu bod y dibenion y gellid rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer yn gul. Eglurodd CamNesa Consultancy:

“If you compare [the purposes] against the current European programme for the European maritime and fisheries fund, this constitutes just a small part of that programme. I think that, if you look at some of the wider aspects of the Bill...from a financial perspective,

¹⁰⁸ www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld11847/lcm-ld11847-w.pdf

¹⁰⁹ <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0278/en/18278en01.htm>

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 16 Ionawr 2019

then, it really does need to capture the whole chain and the whole opportunity.”¹¹¹

146. Credai'r Athro Barnes y dylai'r darpariaethau mewn perthynas â chymorth ariannol gael eu cysylltu'n benodol â'r amcanion pysgodfeydd. Dywedodd:

“This would mean any terms of the grants scheme would contribute to the achievement of the Fisheries Objectives. This would facilitate an alignment between developmental activities and the operational delivery of sustainable fisheries.”¹¹²

147. Adleisiwyd y farn hon gan ClientEarth.

Cyllid ar gyfer cynlluniau newydd

148. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at yr ansicrwydd presennol mewn perthynas â chyllid ar gyfer y sector yn y dyfodol unwaith y bydd yr EMFF yn dod i ben. Eglurodd y WFA, er bod Llywodraeth y DU wedi sicrhau cyllid yr EMFF ar gyfer ceisiadau a gymeradwywyd cyn mis Rhagfyr 2020, nid oedd unrhyw arwydd bod lefelau cyllido ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol yn cael eu sefydlu trwy Fil y DU.¹¹³

149. Dywedodd WEL a Greener UK:

“We are concerned that to date there has been limited consideration given to the impact of the UK's departure from the EU on funding for fisheries and marine environmental management in Wales. For example, LIFE and European Maritime & Fisheries Fund (EMFF) funding schemes have funded a significant number of Welsh Government's and Natural Resources Wales's MPA management activities.”¹¹⁴

150. Aethant ymlaen i ddweud:

“We would urge Welsh Government to determine, in the context of Schedule 4 of the Fisheries Bill, the figure spent to date on fisheries and marine management from European funding to enable the Marine and Fisheries Division to be able to contribute effectively to discussions on replacement funding.”¹¹⁵

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 225, 16 Ionawr 2019

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Richard Barnes

¹¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 228, 16 Ionawr 2019

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, WEL a Greener UK

151. Pwysleisiodd Dr Stewart yr angen i sicrhau bod lefelau priodol o gymorth ariannol ar gael i bysgotwyr Cymru trwy broses Brexit, ac i gefnogi datblygu ei fflyd pysgota, pe bai Cymru'n ennill cyfran fwy o gwota'r DU yn y dyfodol.¹¹⁶

Cyllid yn y dyfodol ar gyfer polisi pysgodfeydd

152. Dywedodd Griffin Carpenter fod cyllid ar gyfer gweinyddu a monitro a gorfodi yn fater llawn mor bwysig, yn y man lleiaf, â chyllid ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Awgrymodd y gellid defnyddio adennill costau fel ffordd o fynd i'r afael â hyn, o ystyried bod elw'r diwydiant yn cynyddu. Dywedodd:

“The way we manage most other resource industries, be that forestry or mining, aggregate extraction, if you use a public natural resource, you pay for it. So, it's not a popular thing to say, but it's not as crazy to say now as it used to be.”¹¹⁷

153. Mynegodd ClientEarth bryder hefyd am ddiffyg cyllid yn y dyfodol ar gyfer monitro a gorfodi ac roedd yn cefnogi cyflwyno mecanwaith adennill costau.¹¹⁸

154. Eglurodd yr Athro Barnes fod y potensial i Lywodraeth Cymru greu referniw i fuddsoddi ym mhysgodfeydd Cymru yn gyfyngedig oherwydd maint y sector. Nododd, yn y dyfodol, y byddai pysgodfeydd Cymru yn cystadlu yn erbyn sectorau eraill o'r economi am gyllid.¹¹⁹ Codwyd pwynt tebyg gan NUTFA, a ddywedodd y byddai'r sector pysgodfeydd yn cystadlu yn erbyn blaenoriaethau gwleidyddol a chyhoeddus eraill, megis iechyd ac addysg.¹²⁰

Tystiolaeth y Gweinidog

155. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn hapus gyda'r pwerau cymorth ariannol, ond eglurodd nad oedd Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd hyd yma ynglŷn â chyllid ar gyfer pysgodfeydd Cymru ar ôl Brexit.¹²¹

156. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl yr un lefel o gyllid ag sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r EMFF.¹²² Pan ofynnwyd iddi ymhelaethu ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu a chyflwyno'r cynllun ariannol newydd, dywedodd y

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Bryce Stewart

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 107, 16 Ionawr 2019

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 349, 16 Ionawr 2019

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 106, 16 Ionawr 2019

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 249, 16 Ionawr 2019

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 24 Ionawr 2019

¹²² Cofnod y Trafodion, paragraff 227, 24 Ionawr 2019

Gweinidog ei bod braidd yn rhy gynnar debyg ac nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o gynnydd ar hyn o bryd.¹²³ Eglurodd y byddai hi am ymgynghori ar y rheoliadau drafft sy'n sefydlu'r cynllun.¹²⁴

157. Esboniodd swyddog y Gweinidog y byddai costau ychwanegol yn gysylltiedig â Bil y DU. Er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â thrwyddedu llongau pysgota tramor, a mwy o waith monitro a goruchwylio. Awgrymodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio cytundeb gan Lywodraeth y DU ar gyllid i dalu am y gwariant ychwanegol hwn.¹²⁵

Ein barn

Ar ôl i'r DU adael y CFP, bydd cyllid yr EMFF yn dod i ben. Felly, bydd angen system newydd o gymorth ariannol i bysgodfeydd Cymru ar ôl Brexit.

O dan Atodlen 4, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu darparu cymorth ariannol ar gyfer ystod o ddibenion. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer polisi pysgodfeydd yng Nghymru ar ôl Brexit hyd yma. Nid yw mewn sefyllfa, felly, i egluro i'r Cynulliad yn fanwl y dibenion y bydd y pwerau'n cael eu defnyddio ar eu cyfer. Heb gynigion ar gyfer cynllun y dyfodol, nid yw'n bosibl asesu a ydynt yn briodol neu wedi'u llunio'n addas.

Er gwaethaf yr uchod, rydym yn fodlon y bydd rhaid i unrhyw gynllun yn y dyfodol gael ei wneud gan reoliadau. Mae hyn yn welliant amlwg ar ddarpariaethau cymorth ariannol cyffelyb ym Mil Amaethyddiaeth y DU. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghori ar gynllun arfaethedig y dyfodol. Er nad ydym yn amau'r ymrwymiad hwn, credwn y byddai Atodlen 4 yn cael ei chryfhau drwy gynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori, at ddiben sicrwydd ac eglurdeb.

Rydym yn pryderu nad yw trefniadau ariannu pysgodfeydd ar ôl Brexit wedi'u pennu eto. Rhaid mynd i'r afael â hyn fel mater o frys, er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector yn arbennig. Mae diffyg eglurder ynghylch y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau cyllid, gan gynnwys y cyllid sydd ei angen i dalu'r costau ychwanegol sy'n deillio o Fil y DU, er enghraifft, trwyddedu llongau. Nid ydym yn disgwyl i bysgodfeydd Cymru fod ar eu colled o ganlyniad i Brexit. Ni

¹²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 219, 24 Ionawr 2019

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 221, 24 Ionawr 2019

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 24 Ionawr 2019

ddylai'r costau ychwanegol hyn olygu lleihad yn y cymorth ariannol sydd ar gael i'r sector.

Rydym yn ailadrodd ein hargymhelliad yn ein hadroddiad, "*Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru*", y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth uchelgeisiol a phenodol i dyfu pysgodfeydd Cymru. Credwn y dylai'r strategaeth hon fod yn sail i asesiad o anghenion cyllido hirdymor y sector.

Yn olaf, rydym yn pryderu am y diffyg gwybodaeth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil y DU hwn. Fe wnaethom fynegi pryderon tebyg mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth y DU.

Yn y ddau achos, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na fydd "unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol" yn deillio o bob Bil. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth y DU wedi hysbysu'r Senedd y bydd darpariaethau tebyg yn arwain at gostau mewn sawl maes. Mae hyn yn dangos patrwm lle mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ariannol gyfyngedig i'r Cynulliad. Mae hyn yn rhwystro craffu effeithiol ac nid yw'n dderbyniol.

Casgliad 21. Dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynigion ar gyfer unrhyw gynllun cymorth ariannol sy'n cael ei sefydlu yn y dyfodol o dan Atodlen 4. Disgwylw'n i Lywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn hyn o beth.

Casgliad 22. Credwn fod gwerth mewn sicrhau bod unrhyw gynllun cymorth ariannol yn y dyfodol yn seiliedig ar yr amcanion pysgodfeydd. Credwn y dylid ystyried hyn fel rhan o ymgynghoriad "*Brexit a'n Moroedd*" Llywodraeth Cymru a dylai, os yw'n briodol, fod yn rhan o Fil pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol.

Casgliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd trefniadau cyllido'r sector pysgodfeydd yn y dyfodol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig ac y bydd partneriaid yn cael eu trin â pharch cydradd. Dylai hefyd ofyn am ymrwymiad y dylai lefel y cyllid ystyried unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o Fil y DU.

Casgliad 24. Mae'r wybodaeth ariannol a roddwyd i gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol eraill sy'n gysylltiedig â Brexit, y gofynnwyd i'r Pwyllgor hwn eu hystyried wedi bod yn enbyd o brin. Mae hyn wedi amharu ar y gwaith craffu. At hynny, mae diffyg gwybodaeth o'r fath yn golygu bod risg o gamarwain y Cynulliad ynghylch y goblygiadau ariannol posibl sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth. Rhaid i Lywodraeth

Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn. Os na fydd yn gwneud hynny, byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried hyn ac, os oes angen, cyflwyno diwygiadau priodol i'r Rheolau Sefydlog.

8. Mynediad i farchnadoedd

Nid yw Bil y DU yn mynd i'r afael â mater trefniadau masnach yn y dyfodol gyda'r UE. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bysgodfeydd Cymru.

158. Yn y DU, mae'r rhan fwyaf o fwyd môr a gaiff ei ddal yn cael ei allforio, yn bennaf i wledydd yr UE neu drwy gytundebau masnach yr UE, ac mae'r rhan fwyaf o fwyd môr a gaiff ei fwyta yma'n cael ei fewnforio. Caiff 97% o bysgod cregyn Cymru eu hallforio, naill ai i'r UE neu i Dde Korea, trwy gytundeb masnach rydd yr UE.¹²⁶ Gallai rhwystrau tariff neu rwystrau nad ydynt yn rhai tariff gael effaith sylweddol ar fynediad i'r farchnad a'n gallu i gystadlu.

159. Mae natur y berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit yn aneglur o hyd. Yn ystod y trafodaethau ymadael, sefyllfa'r UE oedd y dylai bysgodfeydd fod yn rhan o unrhyw gytundeb pontio, gyda'r DU yn cydymffurfio'n llawn â'r CFP hyd nes y bydd unrhyw gyfnod pontio yn dod i ben.

160. Ar 14 Mawrth 2018, mabwysiadodd Senedd Ewrop ei safbwynt ar y fframwaith ar gyfer perthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol. Mae'n datgan:

“...the access to the EU domestic market must be conditional on the level of access for EU vessels to the UK fishing grounds and their resource.”¹²⁷

161. Ar 23 Mawrth 2018, mabwysiadodd y Cyngor Ewropeaidd ei ganllawiau negodi ar y fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol.¹²⁸ Mae'r canllawiau'n amlinellu y dylai Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol gynnwys mynediad i ddyfroedd pysgota i'r naill a'r llall.

162. Nododd Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, a Phapur Gwyn Defra, *Sustainable Fisheries for Future Generations* (4 Gorffennaf 2018) fod mynediad i ddŵr a chyfleoedd pysgota yn fater ar wahân i fynediad i farchnadoedd ar gyfer pysgod a chynhyrchion pysgod. Roedd y Papur Gwyn yn nodi y bydd unrhyw benderfyniadau ynghylch caniatáu mynediad i

¹²⁶ <http://record.assembly.wales/Plenary/5419#A48213>

¹²⁷ www.europarl.europa.eu/sides/getDoc.do?type=TA&language=EN&reference=P8-TA-2018-0069

¹²⁸ www.consilium.europa.eu/media/33458/23-euco-art50-guidelines.pdf

ddyfroedd y DU ar gyfer llongau o'r UE, neu unrhyw wladwriaethau arfordirol eraill, yn fater i'w drafod.

163. Ailadroddwyd y safbwynt hwn ar 17 Gorffennaf 2018 gan George Eustice AS mewn tystiolaeth i Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin. Dywedodd:

“...negotiations on fisheries access and fisheries management as being one strand under an association agreement, and trade as being an entirely separate one. We do not see the two as being connected.”¹²⁹

164. O ganlyniad i hynny, mae'r Cytundeb Ymadael drafft rhwng y DU a'r UE yn nodi na fydd cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth yn dod o dan unrhyw drefniant tollau dros dro yn dilyn cyfnod pontio Brexit, oni bai bod cytundeb ar fynediad i ddyfroedd a chyfleoedd pysgota yn gymwys. Bydd trefniadau ar bysgodfeydd yn cael eu trafod fel rhan o bartneriaeth gyffredinol y dyfodol, gyda'r ddwy ochr yn anelu at ddod i gytundeb erbyn 1 Gorffennaf 2020.

165. Mae nodyn esboniadol, Protocol on Ireland and Northern Ireland, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi:

“An essential condition for this single customs territory to cover fisheries and aquaculture products will be to agree between the Union and the UK on access to waters and fishing opportunities.”

166. Wrth bwysleisio arwyddocâd y berthynas fasnachu yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE ar gyfer pysgodfeydd Cymru, dywedodd ymchwilyr o “brosiect polisi pysgodfeydd y DU ôl-Brexit: heriau a chyfleoedd aml-lefel”:

“...issues around trade, export markets and tariff and non-tariff barriers are of more importance to the Welsh fishing industry than the question of improved quota allocation. All of this goes to highlight that the needs of the Welsh fishing industry are different from industry across the rest of the UK. This will need to be reflected in any post-Brexit fisheries arrangements.”

Tystiolaeth rhanddeiliaid

167. Dywedodd Dr Stewart mai gadael y UE heb unrhyw fargen fyddai'r sefyllfa waethaf posibl i bysgotwyr Cymru. Er y byddai hyn yn arwain at dariffau cymedrol

129

<http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/environment-food-and-rural-affairs-committee/fisheries/oral/87074.html>

o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, awgrymodd fod rhwystrau nad ydynt yn dariffau yn fwy o fgythiad. Dywedodd:

“These would result in delays to exports due to extra hygiene checks and processing of paperwork (e.g. catch certificates.) Even small delays in the existing supply chains could severely affect the price and therefore profitability of exports, particularly for shellfish, which are normally exported fresh or alive.”¹³⁰

168. Mynegodd Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor Cyfyngedig safbwyntiau tebyg. Cyfeiriodd at y lefelau uchel o allforion ar gyfer pysgod sy'n cael eu dal neu eu cynhyrchu yn y DU a'r ddibyniaeth ar farchnadoedd yr UE, neu fynediad ffafriol i drydydd gwledydd trwy gytundebau masnach rydd yr UE, a dywedodd:

“Friction at the border/point of entry represents in some cases, quite existential challenges to the maintenance of these trading arrangements – all this is before factoring in any issues associated with direct cost mechanisms such as tariffs.”¹³¹

169. Nododd fod defnyddwyr y DU yn geidwadol yn eu dewisiadau ac, er y gallai fod rhywfaint o gyfle i gynyddu'r defnydd domestig o rywogaethau penodol, er enghraifft, maelgwn a chimychiaid, bydd hyn yn parhau i fod yn ddibynnol ar y pris ac ni fydd yn gwneud yn iawn am y gofod marchnad a'r gwerth a gollir mewn unrhyw ffordd ystyrion”.¹³²

Tystiolaeth y Gweinidog

170. Dywedodd y Gweinidog, hyd yn oed os oedd cynnydd yng nghyfran Cymru o'r cwota, os nad oes marchnad a bod yna dariffau, roedd hi'n poeni am y diwydiant dyframaeth yma.¹³³ Yn benodol, dywedodd fod y diwydiant pysgod cregyn yn fregus.¹³⁴

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Bryce Stewart

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor Cyfyngedig

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor Cyfyngedig

¹³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 212, 24 Ionawr 2019

¹³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 249, 24 Ionawr 2019

Ein barn

Mae ein hadroddiad, *Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru*, yn tynnu sylw at y ffaith bod mynediad i farchnadoedd yn allweddol i oroesiad pysgodfeydd Cymru, o gofio pwysigrwydd allforion, yn enwedig i wledydd yr UE.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd consensws ynghylch telerau ymadael â'r UE y DU. Wrth i'r ansicrwydd hwn barhau, mae pryder cynyddol ynghylch effaith cytundeb masnach anffafriol, neu absenoldeb unrhyw gytundeb o gwbl, ar economi Cymru, ac ar y diwydiant pysgota.

Gallai rhwystrau nad ydynt yn dariffau gael effaith ddifrifol ar y diwydiant. Mae 90% o'r pysgod cregyn sy'n cael eu dal yng Nghymru yn cael eu hallforio i'r UE, gyda llawer o rywogaethau'n cael eu cludo'n fyw. Gallai'r oedi lleiaf gael effaith ddifrifol ar hyfywedd busnesau.

Cyfyngedig yw'r farchnad ddomestig ar gyfer pysgod cregyn ar hyn o bryd. Er y gallai fod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd domestig, ni fydd hyn yn gwneud iawn am golli marchnadoedd yr UE neu fynediad cyfyngedig iddynt.

Yn ein hadroddiad ar *Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru*, pwysleisiwyd yr angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau i liniaru risgiau Brexit ar y diwydiant pysgota. Yn benodol, trwy archwilio'r potensial i gynyddu'r galw am gynnyrch yn y farchnad ddomestig. Rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog i ystyried rôl caffael cyhoeddus wrth gynyddu galw.

Casgliad 25. Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad yn ein hadroddiad, *Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru*, y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth benodol ac uchelgeisiol i dyfu pysgodfeydd Cymru. Bydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Brexit a'n Moroedd*, yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth, a bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn llywio datblygiad polisi pysgodfeydd yn y dyfodol. Disgwylwn i'r ymgynghoriad adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf a chynnwys cynigion i liniaru'r risgiau cysylltiedig. Hefyd, dylai'r ymgynghoriad edrych ar ffyrdd o gefnogi cymunedau arfordirol, yn cynnwys drwy gael gofyniad bod cyfran o'r pysgod sy'n cael eu dal ym mharth Cymru yn cael eu glanio ym mhorthladdoedd Cymru.

9. Cynlluniau codi tâl i atal gwaredu pysgod

Mae Bil y DU yn darparu ar gyfer cynllun codi tâl. Bydd y darpariaethau'n berthnasol mewn perthynas â Lloegr yn unig.

171. Mae Erthygl 15 o Reoliadau'r CFP (sydd heb ei ddiwygio gan Fil y DU) yn cyflwyno rhwymedigaeth glanio, neu'r "gwaharddiad gwaredu pysgod". Mae'r rhwymedigaeth glanio yn ei gwneud yn ofynnol i bob dalfa o rywogaethau masnachol sy'n cael eu rheoleiddio ar fwrdd cwch neu long gael ei glanio a'i chyfrif yn erbyn cwota. Felly, ni chaniateir i bysgod sy'n cael eu dal gael eu gwaredu yn y môr mwyach. Mae'r rhwymedigaeth glanio wedi cael ei chyflwyno fesul cam ar draws pysgodfeydd a rhywogaethau, gyda'r ymrwymiad llawn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2019.

172. Mae Cymalau 23 i 27 yn gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu, drwy reoliadau, gynllun codi tâl sy'n caniatáu gwneud taliad am ddalfa bysgod heb ei hawdurdodi. Bydd cofrestru gyda'r cynllun yn wirfoddol. Dim ond mewn perthynas â Lloegr y mae'r darpariaethau hyn yn gymwys. Nid oes unrhyw ddarpariaethau cyfatebol ar gyfer Cymru.

173. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil y DU, cafodd Cymal 23 ei gynnwys i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch effaith y gwaharddiad gwaredu pysgod.¹³⁵

Tystiolaeth rhanddeiliaid

174. Nododd Dr Bryce Stewart fod y darpariaethau mewn perthynas â chynllun codi tâl i atal gwaredu pysgod yn gymwys yn Lloegr yn unig a dywedodd:

"...if the devolved nations chose different approaches this could cause enormous problems, with fishermen deciding where to land their catches based on which regime is most favourable to them. This example is one of many that highlight the need for a relatively common approach to fisheries management, right around the UK."¹³⁶

175. Roedd y WFA yn ystyried y cynllun arfaethedig yn ateb rhannol i broblem rhywogaethau tagu sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Rhwymedigaeth Glanio (Gwaharddiad Gwaredu Pysgod) yn llawn yn 2019. Awgrymodd y dylai

¹³⁵ <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2017-2019/0278/en/18278en01.htm>

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Bryce Stewart

Llywodraeth Cymru geisio sicrhau darpariaethau cyfatebol i helpu i liniaru'r risgiau o dagu yn y dyfodol.¹³⁷

Tystiolaeth y Gweinidog

176. Wrth egluro pam roedd Gweinidog wedi dewis peidio â cheisio pwerau yn y DU i sefydlu cynllun codi tâl i atal gwaredu pysgod, dywedodd:

“Given the nature and size of the fishing industry in Wales meant we do not face the same challenges with the landings obligation as other parts of the UK.”¹³⁸

177. Fodd bynnag, eglurodd hefyd y bydd atebion i'r rhwymedigaeth glanio yn cael ei ystyried yn briodol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Bil pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol.¹³⁹

Ein barn

Nod y cynllun codi tâl i atal gwaredu pysgod ar gyfer Lloegr yw lliniaru effaith y rhwymedigaeth lanio bresennol ar y diwydiant. Credwn fod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â sector pysgodfeydd Cymru, yn y sefyllfa orau i lunio dull sydd wedi'i deilwra i anghenion y sector yng Nghymru. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi ymrwmo i ystyried atebion priodol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Bil pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol.

Casgliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, fel rhan o'i hymgyngoriad “*Brexit a'n Moroedd*”, a fyddai'n briodol cyflwyno cynllun codi tâl i atal gwaredu pysgod ym Mil pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol.

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

¹³⁸ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

¹³⁹ Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

Atodiad A: Tystiolaeth ysgrifenedig

Darparwyd tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer y Pwyllgor gan yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cyf	Sefydliad
FB 01	New Under Ten Fishermen's Association (NUTFA)
FB 02	Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor
FB 03	Dr Bryce D Stewart, Prifysgol Caerefrog
FB 04	New Economics Foundation
FB 05	Cyswllt Amgylchedd Cymru a Greener UK
FB 06	Cymdeithas Pysgotwyr Cymru Cyf
FB 07	Cyswllt Amgylchedd Cymru
FB 08	Yr Athro Richard Barnes, Prifysgol Hull

Atodiad B: Tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma:

Trawsgrifiadau

Dyddiad	Enw a Sefydliad
16 Ionawr 2019	<p>Yr Athro Richard Barnes, Deon Cyswllt ar gyfer Ymchwil, Prifysgol Hull</p> <p>Griffin Carpenter, Uwch-ymchwilydd, New Economic Foundation</p> <p>Dr Bryce Stewart, Arweinydd y Rhaglen BSc/ MEnv Gwyddorau Amgylcheddol, Prifysgol Caerefrog</p> <p>Jim Evans, Cadeirydd, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru</p> <p>Jon Parker, Cyfarwyddwr, Cwmni Ymgynghori CamNesa</p> <p>Jeremy Percy, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Newydd Pysgotwyr Llongau dan Ddeg Metr</p> <p>Debbie Crockard, Uwch-eiriolydd Polisi Pysgodfeydd (Cymdeithas Cadwraeth Forol) yn cynrychioli Greener UK</p> <p>Sarah Denman, Cyfreithiwr UK Environment, ClientEarth</p> <p>Emily Williams, Swyddog Polisi Morol (RSPB) yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru</p>
24 Ionawr 2019	<p>Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig</p> <p>Robert Floyd, Pennaeth, Trosglwyddo o'r UE (Morol a Physgodfeydd)</p> <p>Graham Rees, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Morol a Physgodfeydd</p>